

Pecyn Cymorth



Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu

Tachwedd 2015

h) Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, ar wahân i'r:

Templed polisi chwarae ysgol	Templed memorandwm cyd-ddealltwriaeth
Templed dadansoddiad opsiynau	Templed polisi rheoli risg
Templed cwestiynau arolwg barn a nodiadau i hwyluswyr	Templed asesiad risg-budd
Templed archwiliad man chwarae	Templed gwiriadau man chwarae cyffredin
Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cymuned chwareus	

ISBN: 978-0-9932410-3-1

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Derbyniodd Chwarae Cymru ariannu gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm i gynnal peilot o'r pecyn cymorth hwn.

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig rhif: 1068926

Cwmni cyfyngedig trwy warant, rhif: 3507258

Cofrestrwyd yng Nghymru



Pecyn Cymorth

Rhagair

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac mae wedi ei gorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Trwy chwarae, bydd plant yn datblygu gwytnwch a hyblygrwydd fydd yn cyfrannu at les corfforol ac emosiynol.

I'r plant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywyd.

“Yr hawl i chwarae yw hawl cyntaf plentyn gan y gymuned. Chwarae yw hyfforddiant natur ar gyfer bywyd. Ni all unrhyw gymuned dresmasu ar yr hawl hwnnw heb wneud rhyw anaf dwfn a pharhaol i gyrrff a meddyliau ei dinasyddion.”

(David Lloyd George, 1925)

Mae plant a phobl ifainc angen, ac mae ganddynt hawl i, amser a manau o safon i chwarae fel rhan o'u bywyd bob dydd yn eu cymuned eu hunain.

Mae cyfleusterau ysgol sy'n bodoli eisoes, yn y mwyafrif o achosion, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ddigoni, nid yn unig anghenion dysgu pob dysgwr, ond hefyd lawer o anghenion cymdeithasol ac adloniadol y gymuned. Yn aml, mae adeiladau ysgol, eu cynnwys a'u tiroedd yn cynrychioli'r ased unigol fwyaf yn y mwyafrif o gymunedau.

Mae'n bwysig bod ysgolion yn realistig ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei ddarparu o ran datblygu ac ehangu cyfleoedd ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu. Mae ysgolion ar draws y wlad wedi llwyddo i wneud hyn, ac mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei ddylunio i'n cynorthwyo i ddysgu o'u profiadau hwy.

Mae'n bosibl mai nid elfen ymarferol fydd y rhwystr pennaf fydd yn wynebu llawer o ysgolion. Gall fod yn ofn methiant neu'n ganfyddiad bod hyn yn wahanol iawn i'r hyn y bydd ysgolion yn ei wneud ac o'r herwydd y bydd yn hynod o gymhleth a chostus. Bydd rhai ysgolion yn wynebu heriau mwy na'i gilydd; ac efallai mai'r ysgolion hynny yn y cymunedau mwyaf anghenus fydd yn wynebu'r heriau mwyaf sylweddol.

Fodd bynnag, mae'r buddiannau posibl o ran lles ac ymgysylltu cymunedol, yr effeithiau cadarnhaol ar iechyd a hapusrwydd plant a phobl ifainc; a chyfoethogi'r ymdeimlad lleol o gymuned yn golygu ei fod yn werth chweil.

Rydym yn dechrau trwy gydnabod mai prif swyddogaeth ysgol yw darparu ar gyfer addysg ei disgyblion ac mai rôl y pennaeth yw sicrhau bod safle cyfan yr ysgol yn addas i'r diben ar ddechrau'r diwrnod ysgol.



Y Pecyn Cymorth

Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae'r pecyn cymorth hwn, *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu*, wedi ei ddylunio i gynorthwyo penaethiaid, llywodraethwyr a mudiadau lleol i weithio gyda'i gilydd i ystyried sicrhau bod tiroedd ysgol ar gael i blant lleol y tu allan i oriau addysgu.

Pam ddatblygwyd y pecyn?

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn gan Chwarae Cymru, yr elusen genedlaethol dros chwarae plant.

Fe'i datblygwyd i gynorthwyo'r rheini sydd efallai'n llai hyderus ynghylch cynnig y math yma o ddarpariaeth, a hyderir y bydd yn dileu rhai pryderon ac yn cynnig man cychwyn iddynt. Bwriedir i'r pecyn cymorth hwn gefnogi gweithrediad arweiniad lleol ar ddefnyddio tiroedd ysgol at ddibenion cymunedol.

Sut ddatblygwyd y pecyn?

Yn 2012, gofynnwyd i Chwarae Cymru gyflwyno papur ar y defnydd o diroedd ysgol y tu allan i oriau addysgu i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu ar Strategaeth Meysydd Chwarae Cyngor Dinas Caerdydd. I hysbysu'r papur, casglodd Chwarae Cymru astudiaethau achos o ystod o wahanol ysgolion ar draws Cymru sydd yn llwyddo i agor eu tiroedd ar gyfer chwarae.

Er mwyn datblygu'r pecyn cymorth hwn sefydlodd Chwarae Cymru, ac ymgynghori â, grŵp ffocws o benaethiaid a rhanddeiliaid allanol yn ystod y broses ddrafftio gan ddefnyddio eu cwestiynau, eu ymatebion a'u profiadau i ymdrin â'r materion pwysicaf.

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn gan Chwarae Cymru, yr elusen genedlaethol dros chwarae plant, ac fe'i ariannwyd gan Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys dyfyniadau gan benaethiaid sy'n seiliedig ar drafodaethau fu'n rhan o ddatblygiad y pecyn cymorth ac astudiaethau achos sy'n arddangos amrywiol fodelau.

Mae ariannu gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm wedi galluogi Chwarae Cymru i ffurfio partneriaeth gydag Ysgol Addysg, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (tîm Plentyndod Cynnar ac Astudiaethau Addysg) ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd i ymchwilio i brosiect wnaeth gynnal peilot o'r pecyn cymorth hwn, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fe wnaethom greu cysylltiadau gyda thair ysgol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a recriwtio a hyfforddi'r tîm prosiect, oedd yn cynnwys myfyrwyr-wirfoddolwyr sydd ar y rhaglen BA (Anrh) Addysg a Phlentyndod Cynnar ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Casglwyd data trwy gyfweiliadau lled-strwythuredig, a hynny cyn ac ar ôl y prosiect, oddi wrth staff yr ysgolion, disgyblion a'r tîm prosiect.

Sut dylid ei ddefnyddio?

Mae'r pecyn cymorth wedi ei rannu'n ddwy ran:

- 1 MATERION I'W HYSTYRIED** – mae'r rhan yma'n canolbwyntio ar ddarparu'r sail resymegol ar gyfer agor tiroedd ysgol. Mae'n dynodi'r buddiannau ac yn ymateb i rai o'r pryderon. Mae'r adran hon yn cynnwys astudiaethau achos o bob cwr o Gymru.
- 2 DULLIAU DEFNYDDIOL FYDD O GYMORTH** – sy'n cynnig ystod eang o dulliau ymarferol i gynorthwyo gyda'r broses, fel dadansoddiad opsiynau, polisiau chwarae ysgol, cytundebau cymunedol a chynlluniau gwaith.



Beth mae'r pecyn hwn wedi ei ddylunio i'w wneud?

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth eglur a chryno ar gyfer cymunedau ysgolion a'u partneriaid, er mwyn asesu ymarferoldeb gwneud yn siŵr bod tiroedd ysgol ar gael ar gyfer chwarae plant y tu allan i oriau addysgu.

Mae'n cynnwys darnau penodol o wybodaeth y bwriedir iddynt fod o gymorth ichi ddeall ac ymdrin â materion penodol sy'n peri pryder. Mae'n darparu dulliau a thempledi cam-wrth-gam, ymarferol ar gyfer cwblhau gwaith sy'n gysylltiedig ag agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu.

Pa bolisi neu ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r pecyn cymorth hwn?

Hawliau Plant

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn amlinellu 54 o erthyglau sy'n diffinio sut y dylid trin plant a phobl ifainc a'r modd y dylai llywodraethau fonitro CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru a'r DU wedi arwyddo'r confensiwn hwn. Mae tair erthygl yn benodol sy'n ddefnyddiol i'w hystyried wrth ddarparu ar gyfer manau chwarae plant:

Erthygl 31: Yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig ac adloniadol eraill. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cyhoeddi Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31. Mae hwn yn ddatganiad swyddogol sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen o GCUHP sydd angen dehongliad neu bwyslais pellach. Nod y Sylw Cyffredinol yw cynyddu pwysigrwydd Erthygl benodol a chynyddu atebolrwydd ymysg gwledydd sydd wedi arwyddo'r Confensiwn.

Erthygl 12: Parchu barn y plentyn
Pan fo oedolion yn llunio penderfyniadau fydd yn effeithio ar blant, bydd gan blant hawl i ddweud yr hyn y maent yn credu ddylai ddigwydd ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 15: Rhyddid i ymgysylltu
Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd

Polisi Chwarae Cenedlaethol

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru arddangos ei ymrwymiad i chwarae plant yn y *Polisi Chwarae cenedlaethol (2002)*. Mae'r Polisi'n datgan bod:

“Chwarae'n cwmpasu ymddygiad plant a ddewisir o wirfodd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Nid yw'n cael ei berfformio er mwyn nod neu wobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi.”

Mae cynnwys y pecyn cymorth hwn yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth yma o bwysigrwydd chwarae ar gyfer cymdeithas a chymunedau.

Iechyd a Diogelwch

Mae rheoli risg yn rhan allweddol o reoli manau chwarae. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnig cyngor ymarferol ar gynnal asesiadau risg-budd, a datblygu polisïau a gweithdrefnau fel rhan o arferion rheoli risg synhwyrol. Mae chwarae plant, o reidrydd, yn cynnwys cyfleoedd i brofi risg a her. Mae Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cefnogi'r fam yma gan gyhoeddi datganiad lefel uchel ar y cyd â'r Play Safety Forum (PSF) i hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at reoli risg mewn chwarae plant.

Mae'r datganiad lefel uchel hwn – *Chwarae a Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys*, yn ei gwneud yn gwbl glir:

- Bod chwarae'n bwysig i les a datblygiad plant
- Pan fyddwn yn cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, nad dileu risg yw'r nod, ond yn hytrach y dylid pwysu a mesur y risgiau a'r buddiannau
- Y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli gwir risg, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid canolbwyntio ar y gwaith papur
- Y bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.

Dyletswyddau Statudol

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal.

Daw'r Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae fel rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi sy'n cydnabod y gall plant ddiodef o dlodi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math yma o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Fel rhan o'u Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae rhaid i awdurdodau lleol asesu i ba raddau y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae'r allan i oriau addysgu. Fe ganfyddodd Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac adolygiadau Cyflwr Chwarae 2013, a gynhaliwyd gan Chwarae Cymru ar draws Cymru, bod cyfleusterau a thiroedd ysgol yn cael eu tanddefnyddio a ddim yn cael eu mynychu gan blant ar gyfer chwarae.

Mae Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae yn Ganllaw Statudol i awdurdodau lleol ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Mae un o'r materion y dylid ei ystyried, sef 'Gofod sydd ar gael i blant chwarae (Mannau Agored)', yn cydnabod bod tiroedd ysgol yn fannau pwysig ble y gallai plant a phobl ifanc chwarae neu basio trwyddynt er mwyn cyrraedd manau chwaraeadwy eraill y byddant yn eu mynychu.

Mae mater arall yn nodi:

"Mae ysgolion yn darparu cyfle pwysig i blant chwarae'n ystod y diwrnod ysgol ac am gyfnodau cyn ac ar ôl gwersi. Gallant hefyd ddarparu gofod chwarae gwerthfawr ar y penwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol, os yw'r ysgol wedi trefnu ar gyfer hyn. Mae Llywodraeth Cymru'n argymhell y dylai awdurdodau lleol gynghori ysgolion i ddarparu gofod chwarae o ansawdd uchel a digon o amser i blant chwarae'n ystod y diwrnod ysgol, a rhoi ystyriaeth lawn i agor y ddarpariaeth yma'r tu allan i oriau addysgu."

Deddf Addysg 2002

Yn ogystal, mae Deddf Addysg 2002 wedi ei gwneud yn rhwyddach i gyrrff llywodraethol hybu defnydd ehangach o ysgolion i ddarparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau, yn aml y tu allan i'r diwrnod ysgol, er mwyn helpu i ateb anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Cyfranogaeth

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn gwneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogaeth plant a phobl ifanc yn y broses llunio penderfyniadau.

Mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru'n cynnig sail egwyddorol ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau llunio penderfyniadau. Mae'r safonau'n egluro'r hyn y dylai plant a phobl ifanc ei ddisgwyl tra'n cael clywed eu llais yng nghyd-destun gwybodaeth, dewis, peidio â gwahaniaethu, parch, buddiannau i blant a phobl ifanc, y modd y bydd plant a phobl ifanc yn derbyn adborth a'r modd y bydd darparwyr gwasanaethau'n gwella ansawdd.

Mentrau Cenedlaethol

Ysgolion Iach

Mae Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach (WNHSS) yn rhan o Rwydwaith Ewrop o Ysgolion sy'n Hybu Iechyd (HNHPS). Fe'i sefydlwyd i greu ysgolion sy'n fodolau ym mhob gwlad fyddai'n arddangos effaith hybu iechyd yn sefyllfa'r ysgol ac fyddai'n rhannu eu profiadau. Bydd angen i ysgolion arddangos eu bod wedi ymrwymo'n llwyr i agwedd sy'n datblygu'r ysgol gyfan fel gweithle sy'n hybu iechyd.

Bydd caniatáu defnyddio tiroedd ysgol y tu allan i oriau addysgu er mwyn darparu lle i blant chwarae'n cyfrannu at yr agwedd Ysgol Iach.

Ysgolion Bro

Mae ysgol fro yn un sy'n darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu allan i'r diwrnod ysgol, er mwyn helpu i ateb anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ar draws Cymru ceir llawer o ysgolion sy'n mabwysiadu ffocws cymunedol ac sy'n darparu rhywfaint o wasanaethau cymunedol yn cynnwys addysg i oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol.

Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Mae Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig – yn adeiladau newydd ac yn rhai gaiff eu hatgyweirio. Mae Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cydnabod bod 'tiroedd ysgol gwych yn fannau ysbrydoledig, sydd wedi eu dylunio'n ddoeth ac sy'n rhwydd i'w cynnal a'u cadw.' Bydd tiroedd ysgol sydd wedi eu dylunio'n ddoeth yn cyfrannu at amgylchedd chwarae-gyfeillgar – ac yn sicrhau y caiff cyfleoedd i chwarae eu hannog trwy sicrhau bod manau chwarae awyr agored yn darparu cyfleoedd amrywiol ar gyfer pob plentyn, o wahanol oedrannau, i brofi amgylchedd chwarae cyfoethog.

Ceir arweiniad manwl ar broses ddylunio manau chwarae yng nghyhoeddiad Play England, *Design for Play: A guide to creating successful play spaces*.

Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu

Materion i'w hystyried

Materion i'w hystyried

Adran 1	
Prosiect Agored bob Awr	7
Adran 2	
Pwysigrwydd chwarae	8
Adran 3	
Buddiannau	9
Adran 4	
Delio â phryderon	9
Adran 4	
Cloi'r gatiau	10
Adran 6	
Risg fandaliaeth a thorri i mewn i'r ysgol	11
Adran 7	
Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau	13
Adran 8	
Goruchwyliaeth	14
Adran 9	
Cyd-destun cyfreithiol ac ymgyfreitha	15
Adran 10	
Yswiriant	16
Adran 11	
Siart camau'r prosiect	17
Adran 12	
Toiledau	17
Adran 13	
Offer Chwarae	18
Adran 14	
Pryderon rhieni a thrigolion lleol	19



Adran 1 Prosiect Agored bob Awr

Fe ddynododd dadansoddiad o brosiect peilot Agored bob Awr amrywiol themâu, fel cyfathrebu a thensiynau. Fe ddaeth yn amlwg yn fuan iawn bod y prosiect yn cefnogi mwy o blant i chwarae'r tu allan gyda phlant eraill ar ôl ysgol, wrth gyfrannu hefyd at ddatblygiad proffesiynol y myfyrwyr-wirfoddolwyr.

Yr ymchwil

Gyda'n partneriaid fe ddatblygwyd fframwaith ymchwil sy'n dynodi:

- Gwerth chwarae
- Gwirioneddau ymarferol cadw'r gatiu ar agor (yswiriant, ffiniau)
- Risg a buddiannau (goruchwyliaeth, cyfrifoldeb, rhyddid)
- Rhwystrau (ar gyfer yr holl randdeiliaid)
- Canlyniadau (ar gyfer yr holl randdeiliaid)

Y buddiannau

Fe wnaeth y prosiect peilot hwn amlygu buddiannau ar gyfer ystod o gyfranogwyr.

1. Gwell ymgysylltiad cymdeithasol a chymunedol

Fe adroddodd rheolwyr, staff a chyrrff llywodraethol ysgolion eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch ystyried darparu gwell mynediad i chwarae ar gyfer plant sy'n byw yn eu cymunedau.

2. Rhoi llais i bobl gael eu clywed

Fe wnaethom siarad gyda phob un o'r plant oedd yn rhan o'r peilot ac mae eu neges yn un gyson a chryno. Maen nhw eisiau chwarae, ac maen nhw am i'w rhieni / gofawlyr sylweddoli bod cyfyngiadau gaiff eu gosod ar eu hamser a'u gofod i chwarae'n eu hatal rhag chwarae. Roedd y plant, a'u rhieni, yn mwynhau aros ar ôl ysgol i chwarae. Pan ofynnem iddynt, fe ddywedodd y plant a'r bobl ifanc wrthym yr hoffent chwarae mwy y tu allan, gyda'u ffrindiau. Mae'r rhieni y siaradom ni â nhw'n chwilio am gymorth i sicrhau manau chwarae gwell ar gyfer eu plant.

Adroddodd y plant am well mynediad i fannau a lleoliadau i chwarae ac ymgasglu gyda'u ffrindiau yn eu cymunedau eu hunain.

Mae rhieni ac aelodau o'r gymuned wastad yn gofyn a chwilio am opsiynau rhad i gefnogi eu plant i gael mynediad i gyfleoedd chwarae. Fe wnaeth y prosiect hwn ddarparu gwybodaeth a hyder i rieni gefnogi eu plant i chwarae'n eu cymunedau. Mae rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned wedi dod yn eiriolwyr dros chwarae a phlentynod.

3. Gwell cyfleoedd a dewisiadau bywyd

Mae chwarae'n cyfrannu at iechyd a lles plant. Mae cael manau croesawus i chwarae ac ymgasglu mewn cymunedau'n gwella ymdeimlad plant o gymuned ac o berthyn. Roedd y rhieni'n gwerthfawrogi'r chwarae cymdeithasol yr oedd y plant yn gallu ei brofi heb ymyrraeth oedolion. Mae mudiadau lleol (fel grwpiau tenantiaid, mudiadau chwarae lleol, a chymdeithasau rhieni ac athrawon) allai fod am weithio gyda'r ysgolion i sicrhau gwell mynediad i chwarae ar gyfer plant, wedi eu clustnodi.

Negeseuon allweddol o'r prosiect peilot

Gall ysgolion, yn ogystal â chymunedau, gael eu cyfoethogi pan fyddant yn ymgysylltu â'i gilydd yn fwy llawn. Arweiniodd y prosiect at:

- Fynediad cymunedol i gyfleusterau a chyfleoedd sy'n bodoli'n eu cymuned eisoes
- Gwelliant mewn ymddygiad plant a'u sgiliau cymdeithasol
- Gwelliant mewn cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn lleol
- Gwell cyfleoedd ar gyfer plant y tu allan i oriau ysgol
- Cymunedau cryfach.

"Mae'r syniad o fod o fudd i'r gymuned trwy agor y gatiu a defnyddio'r cae hyfryd sydd gennym ni ... Dwi'n gweld hyn fel un ffordd y gallwn dalu'n ôl i'n cymuned ac i'r plant ..."

(Athro mewn ysgol beilot)

Pam y gwnaethom ddatblygu a chyflwyno'r prosiect Agored Bob Awr

Mae amser rhydd plant yn diflannu fwyfwy ac mae cyfleoedd ar gyfer chwarae'r tu allan yn mynd yn llai ac yn llai. Caiff llawer o blant, yn arbennig y rheini sy'n anabl neu ar gyrion cymdeithas, eu hatal rhag ennill y budd mwyaf o chwarae o ganlyniad i rwystrau amgylcheddol a diwyllianol. Mae rhai o'r rhwystrau y bydd plant yn eu hwynebu wrth gyflawni eu hawl i chwarae yn eu cymunedau eu hunain, yn cynnwys:

- Ffyrdd prysur / traffig
- Ofn bwllian
- Oedolion beirniadol
- Diffyg darpariaeth yn lleol
- Ffordd o fyw'r rhieni
- Tywydd
- Ofn dieithriaid (canfyddiad o berygl dieithriaid)
- Pryderon rhieni
- Diffyg darpariaeth
- Diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth
- Diffyg llwybrau diogel i ardaloedd chwarae (draw oddi wrth ffyrdd prysur)
- Diffyg ardaloedd chwarae wedi eu goruchwyllo
- Darpariaeth ar ôl ysgol anfforddiadwy
- Darpariaeth heb ei chynnal a'i chadw'n ddigonol
- Safon y ddarpariaeth sydd ar gael
- Darpariaeth dan do annigonol

Adran 2 Pwysigrwydd chwarae

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plantⁱⁱⁱ ac mae wedi ei gorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Trwy chwarae, bydd plant yn datblygu gwytnwch a hyblygrwydd fydd yn cyfrannu at les corfforol ac emosiynol.

I'r plant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywyd.^{iv}

Yn aml, mae ysgolion yn cynnig man delfrydol i blant chwarae a rhyngweithio â'i gilydd. Mae'n bwysig datblygu elfen chwarae gref er mwyn darparu amgylchedd ysgol iach.

Mewn Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu a sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd, mae Llywodraeth Cymru'n diffinio amgylchedd chwarae cyfoethog fel

"un sy'n hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol. Mae'n mwyafu'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigedd, dyfeisgarwch, her a dewis. Mae'n fan cyhoeddus dibynadwy ble y mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, ac ar eu telerau eu hunain.

Mae darpariaeth chwarae o safon yn cynnig cyfle i bob plentyn rhyngweithio'n rhydd â, neu brofi'r canlynol:

Plant eraill – o wahanol oedrannau a gallu, gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, cydweithredu, dadlau a datrys anghydfodau.

Y byd naturiol – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd.

Rhannau rhydd – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu.

Y pedair elfen – daear, awyr, tân a dŵr.

Her ac ansicrwydd – cyfleoedd graddedig ar gyfer cymryd risg; ar lefel corfforol yn ogystal ag emosiynol.

Newid cymeriad – chwarae rôl a gwisgo i fyny. **Symud** – rhedeg, neidio, dringo, balansio, rhoio, siglo, llithro a throelli.

Chwarae gwyllt – chwarae ymladd.

Y synhwyrâu – sŵn, blas, gwead, arogl a golygfeydd."



Adran 3 Buddiannau

Trwy Gymru gyfan mae tiroedd nifer o ysgolion yn cynnig adnodd pwysig ar gyfer chwarae plant. Yn aml, bydd tiroedd ysgol yr unig ardal o dir agored ble y gall plant chwarae yn eu cymuned leol. Yn yr un modd, bydd rhai ysgolion yn cynnig yr unig arwyneb gwastad a geir yn lleol ble y gall plant ddysgu i fynd ar gefn beic a chwarae â'u sgwteri a'u sglefrfyrdau.

Mewn llawer o ardaloedd, yn drefol a gwledig, bydd tiroedd ysgol yn cynnig man niwtral o fewn y gymuned leol. Gall cael mynediad i ofod o'r fath gyfoethogi'r cyfleoedd gaiff pob adran o'r gymuned o amgylch yr ysgol ar gyfer adloniant a chwarae awyr agored.

Yn gyffredinol, bydd plant a phobl ifainc yn gwneud mwy o ddefnydd o'r awyr agored ac yn treulio mwy o amser y tu allan nac oedolion, felly, mae effeithiau cadarnhaol cael mynediad i dir ysgol, o bosibl, yn fwy iddyn nhw nag y mae i oedolion.

Gall ysgolion a chymunedau gael eu cyfoethogi pan fyddant yn ymwneud mwy â'u gilydd. Dywed penaethiaid, pan fo ysgolion yn ymgysylltu â'u cymuned leol, bod hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar gyrhaeddiad disgyblion ac yn cynyddu eu uchelgeisiau i symud ymlaen o'r ysgol i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae buddiannau defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'n cynnwys:

- Cynnydd mewn lefelau ysgogiad a hunan-barch ymysg disgyblion
- Cyfleoedd sy'n atal pobl ifainc rhag symud ymlaen i lefelau risg uwch
- Cyfleusterau a chyfleoedd ychwanegol
- Gwell gweithio partneriaeth o fewn y gymuned
- Gostyngiad mewn dadrithiad ymysg disgyblion
- Gwelliannau mewn ymddygiad a sgiliau cymdeithasol plant
- Gwelliant mewn cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn lleol
- Gwell cyfleoedd i blant y tu allan i oriau ysgol
- Helpu i adfywio ac atgyfnerthu cymunedau
- Gwell cydweithredu gyda asiantaethau eraill i hybu gwell diogelwch cymunedol'.

Adran 4 Delio â phryderon

O'r cychwyn cyntaf dylid cydnabod y gall darparu cyfleoedd chwarae ar diroedd ysgol fod yn her. Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion a rhai cymunedau'n wynebu mwy o heriau na'i gilydd. Mae pob ysgol yn unigryw, ac mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn gwbl sensitif i anghenion ei chymuned benodol ei hun.

O'r cychwyn cyntaf, dylid cydnabod y ceir cyfyngiadau cyffredin y bydd angen eu goresgyn pan ddefnyddir cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau ar wahân i'r swyddogaeth pennaf o addysgu disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cynnwys:

- Patrwm sylfaenol a defnyddioldeb y safle
- Costau rhedeg a chynnal a chadw
- Gwrthwynebiad y gymuned addysgol, a'r gymuned ehangach.

Mae'r adrannau canlynol yn cynnig trosolwg o ddatrysiadau posibl ac astudiaethau achos i heriau a phryderon y gallai ysgolion eu dynodi ynghylch defnydd tiroedd ysgol y tu allan i oriau addysgu.



Adran 5 Cloi'r gatiâu

Bydd penderfynu a ddylid cloi gatiâu'r ysgol ai peidio'n dibynnu'n helaeth ar sefyllfa leol yr ysgol. Fodd bynnag, efallai mai'r cwestiwn mwyaf perthnasol yw nid os y dylid eu cloi ond yn hytrach pryd y dylid eu cloi a phwy fydd yn eu cloi.



Hyd yn oed mewn mannau ble fo gwir angen i gatiâu'r ysgol gael eu cau wedi oriau addysgu, yn aml iawn ceir cyfnod cyn i'r addysgu ddechrau yn y bore ac wedi i'r addysgu orffen yn y prynhawn ble y gellid caniatáu mynediad. Mewn rhai ardaloedd efallai y byddai'n opsiwn i wahodd grŵp lleol, er enghraifft y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) neu'r Gymdeithas Tenantiaid Lleol, i ddatblygu cytundeb cymunedol fyddai'n caniatáu i rai ysgolion ond cloi eu gatiâu ar adeg penodedig.

Efallai y byddai'n bosibl hefyd i rai ysgolion ystyried systemau mynediad deuol. Er enghraifft, ardal arwyneb caled caeëdig ar gyfer gemau pêl a chwarae ar olwynion wedi ei hadeiladu ar ffin allanol safle'r ysgol, gyda mynedfa ar ochr yr ysgol a mynedfa ar yr ochr gymunedol. Bydd hyn yn darparu ardal at ddefnydd yr ysgol ac ar gyfer defnydd y tu allan i oriau addysgu, fydd ddim yn gofyn i'r prif gatiâu gael eu gadael ar agor.

Astudiaeth Achos: Ysgol Iau Gaer, Casnewydd

Yn Ysgol Iau Gaer ceir tua 180 o ddisgyblion rhwng 7-11 mlwydd oed o ddalgylch cymysg, yn ogystal â Chanolfan Cynnal Dysgu sy'n cynorthwyo plant o bob cwr o Gasnewydd. Agorwyd yr ysgol yn swyddogol ym 1953 ac mae'n rhannu safle gyda Ysgol Babanod Gaer, canolfan gymunedol yn ogystal â Man Chwarae Amldeffnydd (MUGA).

Saif yr ysgol ar safle 14 acer sy'n cynnwys dŵl, yn ogystal ag ardaloedd o goetir a mannau bywyd gwyllt sydd bellach wedi hen ymsefydlu, ynghyd â meysydd sylweddol o faint ar gyfer chwaraeon.

Ar un adeg roedd gan yr ysgol drefniant mynediad digyfngiad hanesyddol y tu allan i oriau addysgu; fodd bynnag, ddwy flynedd yn ôl, gosodwyd gatiâu ar y safle oedd yn cyfyngu ar fynediad i'r tir a'r MUGA. Lluniodd corff llywodraethol yr ysgol gytundeb gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer atgyweirio'r MUGA.

Meddai'r Pennaeth, John Webb,

"Ein hysgol ni yw'r unig lain o dir gwastad a geir yn ein cymuned leol ac, yn hanesyddol, rydym wedi gweithio â chlybiau chwaraeon lleol i ddarparu tir ar eu cyfer. Rai blynyddoedd yn ôl fe wnaethom weithio'n agos â'r gymuned pan grybwyllwyd bod diffyg cyfleusterau ar gyfer pobl ifainc yn broblem. Fe dderbyniom MUGA a lloches ieuentid ar y safle, gaiff eu defnyddio gan bobl ifainc o bell ac agos. Ers sefydlu'r cyfleusterau a chodi'r ffensys newydd mae ein hysgol ni, ac ysgol y babanod, wedi cofnodi llai o achosion o fandaliaeth a difrod; i ddweud y gwir, mae llai o ffenestri'n cael eu torri nawr nag oedd yn y gorffennol."

Adran 6 Risg fandaliaeth a thorri i mewn i'r ysgol

"Mae caniatáu mynediad cymunedol i diroedd yr ysgol, mewn gwirionedd, wedi ychwanegu lefel diogelwch inni. Mae rhieni oedd yn ymweld â'u plant wedi ein hysbysu ynghylch problemau o bwys trwy anfon ebost atom, neu adael neges ar beiriant ateb yr ysgol. Rydym hyd yn oed wedi cael achosion ble y byddai rhieni'n dweud wrthym am ddifrod damweiniol a achoswyd gan eu plentyn tra'n chwarae, gyda'r addewid y byddant yn ei drwsio."

"Rydym wedi cael achosion fu'n destun pryder – rhywfaint o graffiti yr oeddem yn ei ystyried yn annerbyniol ar safle'r ysgol. Gan fod gennym berthynas dda â Swyddog Cyswllt yr Heddlu, bu modd iddi weithio'n agos â ni a rhwydwaith cymunedol arall i helpu i gael gwared ohono."

Mae achosion fandaliaeth y tu allan i oriau addysgu'n aml yn ganlyniad problem y tu allan i ffiniau'r ysgol. Mae'n dilyn felly, bod mater fandaliaeth yn broblem gymunedol sy'n galw am ddatrysiad cymunedol.

Yn aml, gellir priodoli gwir achos fandaliaeth cymunedol i ddarpariaeth wael ar gyfer plant hŷn a phobl ifainc yn eu harddegau yn yr ardal leol. Felly bydd amgylchynu ysgol â ffens diogelwch i atal fandaliaeth, nid yn unig yn ateb tymor byr costus a gormesol all wneud i ysgolion ymddangos yn annymunol ac oeraidd, ond gallai hefyd fod yn cyfrannu at achos sylfaenol y fandaliaeth.

Mae mater fandaliaeth yn fwy o risg i rai ysgolion nag eraill, ond i bob ysgol bydd gwahaniaeth rhwng amddiffyn adeiladau'r ysgol rhag cael eu camddefnyddio a'u difrodi'n bwrpasol, a gwarchod tiroedd yr ysgol yn gyffredinol. Os y bydd ariannu cyfalaf ar gael ar gyfer atgyweirio ysgolion

yn sylweddol, gellid defnyddio rhywfaint o'r ariannu yma i addasu'r modd y caiff yr adeiladau eu gwarchod, tra'n mabwysiadu strategaethau a chynlluniau sy'n dal i ganiatáu mynediad i'r tiroedd yn gyffredinol.

Pan ofynnir iddynt, bydd plant a phobl ifainc yn dweud mai'r hyn y maent yn chwilio amdano, yn fwy na dim arall, yw mannau i chwarae'r tu allan, gyda'u ffrindiau ar ôl ysgol. Fyddan nhw ddim, o anghenraid, yn chwilio am nac yn gofyn am, fynediad i adeiladau.

Mae tystiolaeth yn awgrymu, pan fo tiroedd ysgol yn cael eu defnyddio gan y gymuned ehangach, y tu allan i oriau addysgu ac yn ystod y gwyliau (hyd yn oed heb unrhyw oruchwyliaeth), mae'r risg o ddifrod a thorri i mewn yn cael ei leihau'n sylweddol. Nid y plant a'r bobl ifainc sy'n defnyddio tiroedd yr ysgol yn rheolaidd yw'r rhai fydd yn ei fandaleiddio; mae nhw'n gwerthfawrogi'r ddarpariaeth.





Bydd agor tiroedd yr ysgol ar gyfer chwarae'n cynyddu presenoldeb pobl yno ar unwaith. Bydd cymunedau'n gwerthfawrogi'r safle os yw'n cynnig lle iddynt, ac mae pawb yn gwybod bod presenoldeb pobl ar safle'n helpu i atal fandaliaeth.

Gall agor tiroedd yr ysgol olygu bod cymunedau lleol yn teimlo eu bod â mwy o gysylltiad â'r ysgol, unai trwy drefniadau anffurfiol neu trwy gytundebau stiwardiaeth, trefnus. Mae'n dilyn felly, y gellir hefyd lleihau'r risg posibl o weld pobl o'r tu allan i'r gymuned yn achosi trafferthion.

Gall caniatáu mynediad cyfyngedig i diroedd ysgol fod yn un ateb. Gellir cyflawni hyn trwy agor rhan o diroedd yr ysgol i ganiatáu mynediad i'r cyhoedd.

Mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhaglen amrywiol o weithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol. Ffordd arall i ganiatáu mynediad cyfyngedig i diroedd ysgol yw trwy hybu eu defnydd yn weithredol ar gyfer chwarae a ddewisir o wirfodd tra bo gweithgareddau adloniadol eraill, mwy strwythuredig yn cael eu cynnal fel rhan o'r rhaglen ar ôl ysgol.

Astudiaeth Achos: Ysgol Llanddulas, Ysgol Wirfoddol a Reolir Yr Eglwys yng Nghymru, Conwy

Sefydlwyd yr ysgol, ar ei ffurf presennol, ym 1975. Mae yna 135 o ddisgyblion o 3-11 mlwydd oed.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar ddau safle, gyda thiroedd eang o amgylch y dosbarthiadau meithrin sydd ar draws y ffordd o brif gorff yr ysgol. Mae'r gymuned yn cael mynediad llawn i gae'r ysgol.

Meddai'r Pennaeth, Paul Davies,
"Defnyddiwyd Ariannu Loteri i osod offer chwarae mawr ar gae'r ysgol, ac mae'r ysgol hefyd wedi datblygu llwybr natur o amgylch ffin tir yr ysgol. Caiff yr offer chwarae ei ddefnyddio gan y plant yn ystod eu amser chwarae yn ystod misoedd yr haf, a chaiff ddefnydd sylweddol gan rieni a phlant ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Yn ogystal, caiff yr offer ei ddefnyddio gan blant lleol o'r gymuned ar ôl ysgol, ac mae'r defnydd yma'n digwydd yn gyfochrog â chlybiau chwaraeon yr ysgol a Chlwb Ar ôl Ysgol sy'n cael ei gynnal ar yr un safle. Ni chafwyd unrhyw drafferthion gyda fandaliaeth nac ymddygiad gwrthgymdeithasol o bwys ac mae'r offer yn cael ei drin â pharch."

Astudiaeth Achos: Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir, Prosiect Mannau Chwaraeadwy yn Ysgol Gynradd Gymunedol Maerdy, Rhondda Cynon Tâf

Mae ardal ddiffaith oedd yn berchen i'r ysgol, wedi ei lleoli y tu allan i ffin ffurfiol yr ysgol, wedi ei adfywio gan gynllun sensitif i ateb anghenion yr ysgol yn ogystal â'r gymuned leol. Mae cynllun yr ardal chwarae'n seiliedig ar yr egwyddorion dylunio a geir yn *Design for Play: A guide to creating successful play spaces*". Mae'r canllaw'n egluro'r modd y gall mannau chwarae da roi rhyddid i blant a phobl ifainc chwarae'n greadigol a sut y gellir eu cynnal a'u cadw mewn modd fforddiadwy.

Mae'r gymuned leol yn cael defnyddio'r safle ar ôl amser ysgol, ar y penwythnosau ac yn ystod y gwyliau, gan hybu gwir ymdeimlad o ddefnydd cymunedol. Clustnodwyd yr ardal fel y man gorau i ddatblygu cyfleusterau chwarae newydd gan aelodau'r gymuned leol.

Cyflwynodd cymdeithas dai leol, RCT Homes, gyllid ychwanegol i Maerdy Regeneration (grŵp cymunedol lleol) i ariannu ardal ar y safle, na fyddai'r gyllideb wedi ei ganiatáu fel arall. Defnyddiwyd yr ariannu yma i gynnwys ardal chwarae pêl, gan sicrhau cyfleusterau ar gyfer plant hŷn. Trwy gwblhau hyfforddiant, cefnogwyd yr ysgol i fod yn fwy cyfforddus wrth gynnal a chadw a rheoli'r man chwarae, mewn cydweithrediad â staff a gyflogwyd gan Cymunedau'n Gyntaf oedd yn gweithio yn y gymuned leol.

Adran 7 Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), mewn cydweithrediad â'r Play Safety Forum (PSF), wedi cyhoeddi datganiad lefel uchel ar y cyd i hyrwyddo agwedd gytbwys tug at reoli risg mewn chwarae plant.^{vii}

Mae rheolaeth risg mewn darpariaeth chwarae'n golygu taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau mewn modd strategol. Felly, mae'n hanfodol bod gan ddarparwyr fframwaith polisi croyw ac eglur ar gyfer darpariaeth chwarae sy'n datgan nodau cyffredinol y gwasanaeth, sy'n hysbysu'r agwedd tuag at risg a diogelwch, ac sy'n sail i'r rhesymau am lunio penderfyniadau. Bydd polisi sy'n egluro'n gwbl blaen yr angen am gyfleoedd chwarae heriol, ag elfen dderbyniol o risg, yn helpu darparwyr i wrthsefyll unrhyw hawliadau esgeulustod na ellir eu cyfiawnhau. Ceir templed o bolisi rheoli risg yn adran Dulliau defnyddiol fydd o gymorth y pecyn cymorth hwn.

Mae fframwaith polisi yn darparu'r cyd-destun ar gyfer llunio asesiadau risg-budd. Mae asesu risg-budd yn dwyn ynghyd ddadansoddiad deallus o risgiau yn ogystal â buddiannau. Mae Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu^{viii} yn amlinellu ffurf disgrifiadol o asesu risg-budd sy'n caniatáu i ddarparwyr ddatgan yn ysgrifenedig yr holl ystyriaethau perthnasol sydd y tu ôl i fam neu weithdrefn benodol. Ymgynghorwyd â'r HSE wrth gynhyrchu'r cyhoeddiad hwn. Mae'n cymeradwyo'r cyngor synhwyrol, cymesur, rhesymol a chytbwys i ddarparwyr chwarae ar reoli diogelwch cyfranogwyr, a amlinellir yn y canllaw.

Astudiaeth Achos: Tîm Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Corfforaethol, Cyngor Bro Morgannwg

Mae mabwysiadu agwedd synnwyr cyffredin gyda chyfathrebu effeithiol wedi caniatáu i swyddog iechyd a diogelwch Awdurdod Lleol gefnogi ysgolion i edrych ar asesu risg-budd heb ddefnyddio matrices trafferthus.

Mae David Porter, Swyddog Iechyd a Diogelwch, yn darparu cyngor a chymorth i 61 o ysgolion ar draws Bro Morgannwg. Meddai, "Roedd rhai ysgolion yn cael trafferth ar brydiau gyda iechyd a diogelwch gan eu bod yn teimlo bod y broses o gwblhau matrices wedi ei rifo, fel rhan o'r asesiad risg, yn heriol iawn.

"Ym mis Ionawr 2013 argymhellais ffurflen asesu risg amgen i benaethiaid ysgolion cynradd. Mae'r ffurflen hon yn seiliedig ar dempled gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n canolbwyntio ar ddisgrifiad o'r weithgaredd yn hytrach nag ar fatrics risg. Bu'r ymateb yn gadarnhaol iawn gyda nifer o ysgolion yn cytuno i'w defnyddio ar unwaith, gydag eraill yn anelu i newid pan fyddant yn adolygu eu asesiadau presennol. Mae'r ffurflen newydd yn caniatáu i staff fod yn fwy disgrifiadol (yn hytrach na defnyddio rhifau i bennu sgôr) sydd wedi arwain at gynnydd yn y nifer o asesiadau risg o safon."

Pan fo gan ysgolion yr offer a'r deunyddiau cywir, yn y man cywir, gyda'r polisiau a'r gweithdrefnau cywir yn eu lle ar gyfer archwiliadau a gwaith cynnal a chadw, yna bydd y ddarpariaeth chwarae mor ddiogel â sy'n rhesymol ymarferol, sef yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae'n bwysig gosod materion diogelwch a risg mewn cyd-destun. Y prif risg sy'n wynebu plant a phobl ifainc yn ystod diwrnod arferol yn aml iawn fydd mynd i a dod adref o'r ysgol, ac yna teithio i'r mannau ble y byddant yn chwarae a chymdeithasu'r tu allan i oriau addysgu.

Bydd llawer o blant a phobl ifainc yn mynd ati'n weithredol i chwilio am brofiadau chwarae anturus, cyffrous sy'n cynnwys elfen o risg. Yn hytrach na chynyddu'r risg o anafiadau'n sylweddol, gall cael mynediad i diroedd ysgol lleol y tu allan i oriau addysgu, o bosibl, gyfrannu at gadw plant yn ddiogel. Gall darparu cyfleusterau heriol helpu i leihau damweiniau'n gyffredinol trwy gynnig profiadau mewn amgylcheddau a reolir, sy'n ddiogel rhag traffig a pheryglon difrifol eraill.

Astudiaeth Achos: Grŵp Rheoli Risg Conwy a Wrecsam Fframwaith Rheoli Risg Conwy a Wrecsam: Polisi, Trefn Arferol ac Asesu Risg-Budd Dynamig

Yn 2009 cymeradwyodd Cyngor Bwrdeistref Siroel Wrecsam strategaeth chwarae newydd oedd yn ymgorffori amcan i: 'gefngogi'r rheini sy'n darparu ar gyfer chwarae i alluogi plant i brofi risg a her'. O ganlyniad, dynododd cynllun gweithredu'r strategaeth chwarae bod angen datblygu system rheoli risg newydd sy'n anelu i alluogi pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda neu ar ran plant, i fabwysiadu agwedd risg-budd tuag at hwyluso cyfleoedd ar gyfer chwarae.

Datblygwyd y fframwaith newydd mewn partneriaeth ag arbenigwyr ym maes gwaith chwarae a rheoli risg o Wrecsam a Chonwy, ac mae'n seiliedig ar bolisi sy'n cydnabod gwerth gweld plant yn profi risg yn eu chwarae. Mae'r fframwaith yn cynnwys asesiadau risg-budd dynamig ac ar bapur, sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol i lunio barnau gwerth deallus gan daro cydbwysedd rhwng yr angen am ddiogelwch a'r angen i blant gael wynebu risg.

Ers ei datblygu, mae elfennau o'r fframwaith risg-budd yma wedi cael eu cydnabod fel arfer da yn genedlaethol yn ogystal ac yn rhyngwladol, a defnyddiwyd y polisi i ffurfio sail ar gyfer y model o bolisi risg-budd a geir ym Mhecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i gyflawni'r dyletswydd digonolrwydd chwarae newydd.^{ix}

Adran 8 Goruchwyliaeth

Er bod staff yn gyfrifol am oruchwyllo plant a phobl ifainc yn ystod y diwrnod ysgol, yn ystod amser chwarae, amser egwyl ac amser cinio, a phan y byddant mewn darpariaeth ar ôl ysgol wedi ei oruchwyllo, ni fydd hyn yn wir o reidrwydd ar adegau eraill defnyddio'r ddarpariaeth. Pan yr eglurir wrth blant a rhieni bod darpariaeth heb ei oruchwyllo a phan fo asesiad risg-budd trylwyr wedi dynodi a chael gwared â pheryglon, yna gellir ehangu'r polisiau presennol i gwmpasu defnydd heb oruchwyliaeth. Dyma sut y bydd cynghorau lleol yn derbyn yswiriant ar gyfer meysydd chwarae cyhoeddus heb eu staffio.

Gall trefniadau partneriaeth ag adrannau eraill o'r Awdurdod Lleol a / neu fudiadau sector gwirfoddol ddarparu cymorth arbenigol ac weithiau staffio ar gyfer darpariaeth. Mae gan wasanaethau chwarae rhai cynghorau lleol, a llawer o fudiadau sector gwirfoddol lleol, dimau o weithwyr chwarae fydd yn ymweld â gwahanol safleoedd yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn gynnar fin nos yn ystod y tymor, er mwyn hybu defnydd mynediad agored o diroedd ysgol a threfnu sesiynau chwarae.

Efallai y bydd cael staff ar y safle am gyfnod penodol yn helpu ysgol i ddatblygu ei defnydd o'r tir, ac mae'n bosibl y bydd yn lleddfu pryderon rhieni a'r gymuned.

Fydd darpariaeth heb ei oruchwyllo ddim yn galw am staffio ychwanegol ar wahân am rywun i gloi'r gatiau, os oes angen, ac mae cytundebau partneriaeth â grwpiau lleol yn un modd o sicrhau hyn.

Astudiaeth Achos: Prosiect Agored Bob Awr - Chwarae Cymru; Ysgol Addysg, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (tîm Plentynod Cynnar ac Astudiaethau Addysg) ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd

Derbyniodd tri o fyfyrwyr-wirfoddolwyr hyfforddiant Cyflwyniad i Waith Chwarae er mwyn eu galluogi i hwyluso sesiynau chwarae mynediad agored wedi eu staffio mewn dwy ysgol yng Nghaerdydd ac un ysgol ym Mro Morgannwg.

Er mwyn ymgysylltu â phlant yn yr ysgolion cyn i'r sesiynau chwarae ddechrau, fe ddefnyddiodd y myfyrwyr weithgareddau o Weithdy Hawl i Chwarae, Chwarae Cymru. Mae'r pecyn gweithdy ar gael i'w lawrlwytho o:
www.chwaraecymru.org.uk/cym/gweithdyhawlichwarae

Lluniwyd rota o fyfyrwyr, a thîm cefnogol yn cynnwys staff o'r brifysgol a Chwarae Cymru, i oruchwyllo sesiynau chwarae ar ôl ysgol. Ym mhob un o'r ysgolion cynhaliwyd y sesiynau dros chwe wythnos yn nhymor yr haf ar gyfer plant dros saith mlwydd oed.

Darparodd pob ysgol le i storio deunyddiau ac adnoddau - rhannau rhydd fel teiars, rhaffau, tarpolinau, darnau mawr o ddefnydd a sialc. Er eu bod wedi eu cyfyngu o ran nifer, gweithredodd darpariaeth y rhannau rhydd fel sbardun ar gyfer chwarae'n y tair ysgol. Yn nwy o'r ysgolion, arhosodd rhieni ar ôl gyda'u plant iau a mynegi eu hawydd i helpu i gynnal mynediad y tu allan i oriau dysgu i dir yr ysgol.

"Fe wnaeth llawer o rieni aros a chynorthwyo gyda rhedeg y prosiect ac fe wnaethon nhw gefnogi eu plant mwy nag roeddwn i wedi rhagweld. Datblygodd fy rôl wrth i'r prosiect wneud cynnydd, ac wrth i'r plant ddod i fy nabod i, a minnau hwythau. Fe wnaethon nhw fy ngwahodd i ymuno â'u chwarae, ac fe ges i gyfle i ymgysylltu yn ogystal â chyflawni rôl arsylwi a chefnogi.

Lle cyfyngedig iawn oedd ar gael yn yr awyr agored i blant chwarae yng nghymuned yr ysgol, ac mewn rhai achosion roedd teuluoedd mawr yn byw mewn fflatiau bychain heb le y tu allan roeddwn i'n teimlo bod y prosiect yn bwysig, gan fod y plant yn gallu chwarae tu allan a llosgi peth o'u hegni ar ôl bod yn yr ysgol drwy'r dydd.

Ar ôl siarad â nifer o rieni, fe wnaethon nhw sôn wrtha i sut roedd ymddygiad eu plant wedi gwella pan oedden nhw'n gallu aros a chwarae am awr ar ôl ysgol. Roedd hefyd yn gyfle i'r rhieni ymlacio a gwyllo'u plant yn chwarae, gan wybod eu bod mewn amgylchedd diogel."

Myfyriwr-wirfoddolwr

Adran 9 Cyd-destun cyfreithiol ac ymglyfreitha

“Pan oeddem yn datblygu'r safle i'w ddefnyddio gan y gymuned y tu allan i oriau addysgu, roedd pryderon y byddai datblygu'r gofod yn cynyddu'r potensial ar gyfer hawliadau, ac yn cynyddu atebolrwydd. Fodd bynnag, fe wnaeth un o'n llywodraethwyr ein hatgoffa mai'r gwirionedd oedd bod hyn wastad yn bosibilrwydd, ac oherwydd y diffyg gwaith cynnal a chadw ar y safle cyn y datblygiad bod yr ysgol, o bosibl, mewn mwy o berygl i hawliad ddigwydd. Fe wnaethom sylweddoli bod materion atebolrwydd a hawliadau posibl yr un fath, os yw'r safle ar agor neu dan glo.”

Yn y pen draw, corff llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli risgiau.

Ni cheir deddfwriaeth penodol ar ddiogelwch chwarae. Y ddeddfwriaeth allweddol yw Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, a Deddfau Atebolrwydd Deiliaid 1957 a 1984. Mewn gwirionedd, mae'r ddeddfwriaeth yma'n cyfleu lefel o ofal ar gyfer darparwyr a gaiff ei egluro gan y cysyniad o 'resymoldeb'.

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gosod dyletswydd cyfreithiol ar ddarparwyr i gynnal 'asesiad addas a digonol' o'r risgiau sy'n gysylltiedig â safle neu weithgaredd, i gofnodi eu asesuadau a gweithredu'n unol â hynny.

Mae Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957, 2004 yn datgan ei bod yn ddyletswydd ar y deiliad i 'gymryd gofal ym mhob amgylchiadau sy'n rhesymol i sicrhau y bydd yr ymwelydd yn rhesymol ddiogel wrth ddefnyddio'r eiddo at y diben y gwahoddwyd yr ymwelydd... i fod yno'. Mae darpariaethau Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1984 yn rheoleiddio'r sefyllfa yng nghyd-destun pobl ar wahân i ymwelwyr, e.e. tresmaswyr.

Mae'r pryderon neu'r risgiau y dylai'r deiliad ymorol amdanynt yn rhai fydd yn codi o ganlyniad i gyflwr yr eiddo neu bethau a wneir, neu na wnaethpwyd, arno.

Wrth weithredu'r Ddeddf, mae'r llysoedd wedi nodi bod gwahaniaeth pwysig rhwng perygl fydd yn codi oherwydd cyflwr yr eiddo, er enghraifft llwybr anwastad, a damwain ddigwyddodd yn sgîl cymryd rhan mewn gweithgaredd llawn risg, hyd yn oed os oedd nodweddion penodol o'r eiddo'n hwyluso'r weithgaredd honno.

Er enghraifft, mae cyfraith achosion yn nodi na fydd nodweddion tirweddol cyffredin yn berygl sy'n codi o ganlyniad i gyflwr yr eiddo. Fydd eiddo ddim yn annigol neu'n beryglus dim ond oherwydd bod risgiau amlwg yno, fel y posibilrwydd o gwmpo o uchder.

Cydnabyddir bod gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion bryderon ynghylch ymglyfreithiad, ond mae gwir risg ymglyfreithiad yn fychan iawn.

Os yw ysgolion wedi cynnal asesiad risg-budd digonol a bod y ddarpariaeth yn briodol ac yn y man cywir, a bod y polisïau a'r gweithdrefnau cywir yn eu lle, yna mae ymglyfreithiad llwyddiannus yn annhebygol iawn. Fodd bynnag, mae yswiriant yn bodoli ar gyfer yr achlysur prin y ceir hawliad llwyddiannus.

Mae darpariaeth chwarae, fel unrhyw ddarpariaeth arall, yn cyflwyno risgiau, i blant ac oedolion trwy ddamweiniau ac anafiadau, ac hefyd i ddarparwyr trwy'r risg o atebolrwydd.

Fodd bynnag, mae tiroedd ysgolion yn fannau cymharol ddiogel ac wedi bod felly ers blynyddoedd, os nad degawdau, lawer. Dywed yswirwyr a rheolwyr risg Awdurdodau Lleol bod hawliadau o ganlyniad i anafiadau ar feysydd chwarae'n cynrychioli cyfran fechan iawn o'u baich achosion, ac ni cheir unrhyw dystiolaeth o gynnydd trawiadol mewn niferoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dylai'r patrwm yma barhau pe bae tiroedd ysgol yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch.

Mae'n ymddangos bod achosion diweddar yn awgrymu bod y llysoedd yn awyddus i osgoi goramddiffyn diangen plant neu annog twf y diwylliant iawndal.



Adran 10 Yswiriant

Mae yswiriant yn chwarae rhan bwysig gan ei fod yn darparu rhwyd arbed ariannol yn sgîl damweiniau neu golledion eraill. Fodd bynnag, ni fwriedir i yswiriant atal damweiniau neu golledion, ac ni ddylai fod yn elfen sy'n gyrru rheolaeth risg neu drosglwyddo gwasanaeth.

Dylid trafod asesu risg-budd gydag yswirwyr, er mwyn sicrhau y ceir agwedd gytûn ac i gynorthwyo ysgolion yn ogystal ag yswirwyr wrth gyfyngu'r nifer o hawliadau a wneir.

Caiff y mwyafrif o ysgolion eu hyswirio trwy eu Hawdurdod Lleol a thrwy gynllun yswiriant grŵp. Ble fo ysgolion yn llwyddo i agor eu tiroedd ar gyfer chwarae, trefnwyd polisi yswiriant penodol i ganiatáu defnydd cymunedol y tu allan i oriau addysgu.

Astudiaeth achos: Cyngor Dinas Wolverhampton

Mae agwedd Cyngor Dinas Wolverhampton tuag at risg yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod angen taro cydbwysedd rhwng risg a budd, a'i bod yn ddyletswydd ar y cyngor i lunio barnau sy'n hybu lles y cyhoedd yn gyffredinol.

Mae Cyngor Wolverhampton yn hunanyswiredig ar y cyfan o ran ei risgiau atebolrwydd (mae'n cynnal ei gronfa tâl dros ben ei hun o £250,000). Mae'n bolisi gan y cyngor i gyflwyno amddiffyniad cryf yn erbyn unrhyw hawliad ble nad yw'n ystyried ei fod yn atebol, ac i dalu am hawliadau'n gyflym ble fo'n barnu ei fod ar fai. Delir â'r mwyafrif o hawliadau'n fewnol. Gan amlaf, fydd yswirwyr y cyngor ddim yn rhan o'r broses llunio penderfyniadau.

Datblygodd y cyngor bolisi chwarae corfforaethol, traws-sector gyda chyfraniad aelodau, swyddogion iechyd a diogelwch, cynllunwyr parciau a'r gwasanaeth chwarae. Bu archwilio agweddau tuag at, a dealltwriaethau ynghylch, risg mewn chwarae'n rhan allweddol o'r broses. Sylweddolodd y cyngor na fyddai polisi chwarae'n unig yn ddigon i sicrhau newid diwylliant. Roedd llawer o'r bobl oedd ynghlwm â throsglwyddo cyfleoedd chwarae'n tueddu i 'anelu am ddiogelwch', ac roedd y 'ffactor ofn' – am hawliadau posibl, ac achwynion gan rieni neu eraill – yn arwain at arfer amddiffynnol. O ganlyniad, mae'r pennaeth rheoli risg ac yswiriant a'r swyddog chwarae'n creu rhaglen ddysgu ar risg a chwarae ar gyfer pob aelod o staff y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar ddarpariaeth chwarae.^x



Adran 11 Siart camau'r prosiect

Mae'r siart yma'n nodi'r camau i'w cymryd er mwyn cyflwyno cyfleoedd chwarae ar ôl ysgol, gan ddefnyddio tir yr ysgol

Cam 1		
<ul style="list-style-type: none">• Dethol y model i'w ddefnyddio Dadansoddiad opsiynau• Ymgysylltu â'r corff llywodraethol• Ymgysylltu â'r staff i gyd Offeryn archwilio man chwarae Asesiad risg-budd Cynnal a chadw a gwiriadau manau chwarae	<ul style="list-style-type: none">• Datblygu Polisi Chwarae Ysgol• Dynodi partneriaid posibl ac asiantaethau fel grwpiau trigolion, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, darparwyr chwarae a grwpiau cymunedol lleol i drafod eu cael i gyfranogi	Materion i'w harchwilio Pwysigrwydd chwarae Buddiannau / heriau Cloi'r gatiau Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau Goruchwyliaeth Cyd-destun cyfreithiol, ymglyfreitha ac yswiriant Toiledau Offer chwarae Pryderon rhieni a thrigolion lleol
Cam 2		
<ul style="list-style-type: none">• Ymgysylltu â'r plant Gweithdy Hawl i Chwarae Dulliau ymgysylltu â phlant Offeryn Archwilio Man Chwarae• Ymgysylltu â rhieni Cyfarfod â grŵp ffrindiau neu rieni Gwybodaeth i rieni'n amlinellu'r prosiect• Ymgysylltu â'r gymuned Defnyddio llythyr gwybodaeth i rieni fel templed	<ul style="list-style-type: none">• Y gatiau i fod ar agor ar gyfer chwarae ar amserau a drefnwyd gan yr ysgol a'i phartneriaid• Parhau i ymgysylltu â chymuned yr ysgol gyda phenaethiaid, gofalwyr, llywodraethwyr, plant a rhieni	Materion i'w harchwilio: Pwysigrwydd chwarae Buddiannau / heriau Cloi'r gatiau Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau Goruchwyliaeth Cyd-destun cyfreithiol, ymglyfreitha ac yswiriant Toiledau Offer chwarae Pryderon rhieni a thrigolion lleol
Cam 3		
<ul style="list-style-type: none">• Dadansoddi gyda'r partneriaid i gyd i ddynodi sut aeth y prosiect. Beth oedd y buddiannau a'r heriau• Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid i gyd, gan ddefnyddio cwestiynau fel:<ul style="list-style-type: none">- Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig i hwyluso'r cyfle yma ar gyfer chwarae? Pam?	<ul style="list-style-type: none">- Beth oedd buddiannau caniatáu i'r plant ddefnyddio tir yr ysgol y tu allan i oriau addysgu?- A oedd unrhyw heriau i ganiatáu i'r plant ddefnyddio tir yr ysgol y tu allan i oriau addysgu?	<ul style="list-style-type: none">- Sut aethoch chi i'r afael â'r rhain?- Beth sydd angen newid er mwyn gwneud i bethau weithio?

Adran 12 Toiledau


Mae llawer o ardaloedd chwarae lleol, meysydd chwarae a manau agored cyhoeddus eraill ble fo plant yn chwarae, heb unrhyw doiledau arnynt. Gan y bydd llawer o'r plant sy'n defnyddio'r tiroedd ysgol yn byw yn lleol, byddant yn gallu dewis i fynd adref os oes gwir angen. Dylai gwybodaeth ar gyfer plant a rhieni ynghylch defnyddio tiroedd ysgol egluro'r sefyllfa doiledau'n gwbl blaen.

Adran 13 Offer Chwarae

Mae rhai ysgolion yn teimlo nad oes gan diroedd fawr ddim i'w gynnig i blant a phobl ifainc os nad oes offer chwarae sefydlog ar y safle. Fodd bynnag, o gael amser, bydd lle a chaniatâd i chwarae'n cefnogi plant i wneud y gorau o'r amgylchedd. Bydd gofod naturiol, glaswelltog wedi ei dirlunio'n dda yn darparu nodweddion cadarnhaol amlwg ar gyfer chwarae; fodd bynnag, gall ardal wastad wedi ei tharmacio ddarparu gofod da, sy'n rhydd o beryglon, ble y gall plant a phobl ifainc fynd ar feiciau neu sgwteri.

Mae rhannau rhydd yn wrthrychau neu'n elfennau y gellir eu symud o amgylch, eu haddasu, eu hadeiladu, eu chwalu, eu cymysgu, neu eu llenwi â rhinweddau dychmygol – er enghraifft:

Papur, cerrig, brigau, dŵr, tywod, plu, dail, offer, hoelion, blychau, ffabrig, rhaffau, pren, potiau, anifeiliaid, planhigion, metal, clai, mwd, byrddau, cadeiriau, blancedi, unrhyw beth a phopeth y gellir ei symud neu ei drin fel rhan o chwarae. Mae'r manau chwarae gorau yn cynnwys amrywiaeth eang o rannau rhydd a bydd plant yn rhydd i chwarae â nhw fel y mynnant.



Astudiaeth Achos: Ysgol Gynradd Gymunedol Cradoc, Aberhonddu, Powys

Sefydlwyd Ysgol Cradoc ym 1969 yn dilyn cyfuno pum ysgol bentref fechan leol. Mae 130 o ddisgyblion 3-11 mlwydd oed yn yr ysgol.

Mae tiroedd yr ysgol yn eang ac yn cynnwys dau fuarth chwarae ac ardaloedd chwarae glaswelltog sylweddol, sy'n cael eu gwella'n barhaus. Ceir hefyd faes hoci / pêl-droed a chae rygbi ar wahân.

Mae'r tiroedd yn cynnal amrywiol gynefinoedd. Ceir ardal naturiol gaeëdig sy'n cynnwys dôl wyllt, llyn bychan ac ardal wlyptir. Maent hefyd yn datblygu coetir, gardd lysiau, cwt ieir ac ardal bywyd gwyllt yno.

Meddai'r pennaeth, Darren Jones,

"Mae caniatáu mynediad agored i'r gymuned yn drefniant hanesyddol, yn bennaf gan mai tir yr ysgol yw'r unig ardal adloniadol a geir yn y gymuned. Ar y cyfan, mae tir yr ysgol wedi cael ei drin mewn modd parchus. Bydd plant a phobl ifainc sy'n byw yn y gymuned yn dod draw ac yn chwarae ochr-yn-ochr â grwpiau a drefnir, fel y clwb gofal plant, heb unrhyw broblemau, ac nid ydym wedi cael unrhyw drafferthion megis fandaliaeth neu ddifrod.

"Yn ddiweddar, fe wnaethom gyflwyno blwch yn llawn deunyddiau ac offer (rhannau rhydd) all hwyluso a chyfoethogi chwarae plant. Mae'r plant yn cael mynediad agored i hwn y tu allan i oriau addysgu a chafwyd fawr ddim trafferthion gyda'r cyfleuster ychwanegol yma, ar wahân i gael hyd i bethau wedi eu gadael yma ac acw ambell dro ar ôl y penwythnos neu wyliau'r ysgol."

Mae lle i storio yn broblem mewn nifer o ysgolion ac mae'n bosibl y bydd yn fwy fyth o broblem i ysgolion modern nag yw i ysgolion hŷn. Mae rhai ysgolion sy'n darparu rhannau rhydd ar gyfer chwarae'n defnyddio sied ardd ar gyfer storio offer a deunyddiau chwarae'r tu allan, ond efallai na fydd yn ymarferol ym mhob ardal. Mae cynwysyddion llongau'n ddelfrydol ar gyfer storio amrywiol ddeunyddiau chwarae'n ddiogel, yn cynnwys eitemau mawrion fel deunyddiau adeiladu cuddfannau. Gellir defnyddio'r rhain yn ystod amser chwarae ac amser cinio ac hefyd y tu allan i oriau addysgu a gan gynlluniau chwarae'n ystod y gwyliau. Bydd yn golygu rhywfaint o gostau ond, er hynny, gall fod yn ateb cymharol rad.

Adran 14 Pryderon rhieni a thrigolion lleol

Pryd bynnag y ceir newidiadau, mae'n anorhod y caiff pryderon eu mynegi gan fod pobl wedi arfer gyda'r sefyllfa 'fel y bu erioed'. Gall ysgolion ymateb i bryderon trwy sicrhau bod rhieni a thrigolion lleol yn cael eu cynnwys ac yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf: trwy ymgysylltu â hwy o'r cychwyn cyntaf i annog ymdeimlad o berchenogaeth ar y cyd. Mae'r bobl hynny sy'n byw'n agos i'r ysgol mewn sefyllfa ddefnyddol i helpu i gadw llygad ar adnodd cymunedol gwerthfawr; un, y mae'n bosibl, y byddant hwy a'u plant eu hunain yn, neu wedi ei ddefnyddio'n y gorffennol.

Mae pryderon rhieni am ddiogelwch plant pan fyddant allan yn chwarae ac ofnau ynghylch damweiniau, yn ofnau cyffredin a glustnodir gan ysgolion. Bydd cynnwys a hysbysu rhieni pam fod cyfleoedd ar gyfer chwarae'n cael eu ehangu, sut y mae'n cael ei wneud a pham, yn helpu i leddfu'r ofnau hyn. Weithiau, bydd rhieni'n teimlo y bydd 'yr ysgol' yn eu hystyried yn rieni 'gwael' os na fyddant yn mynegi pryder am faterion o'r fath.

Fel cymdeithas, rydym yn clywed mwy o hyd am, ac yn cydnabod, y cysyniad o 'blentyndod coll'. Mae mwy a mwy o rieni, tra'n cydnabod bod eu plant angen chwarae, baeddu a chymryd risgiau, yn aml yn ei chael yn anodd i ddarparu'r cyfleoedd hyn. Bydd llawer yn edrych at gymuned yr ysgol i'w cynorthwyo i ymateb i'r her yma. Bydd darparu'r wybodaeth gywir ar gyfer rhieni a'r gymuned ehangach yn eu cynorthwyo i ddeall pam fod y ddarpariaeth yma'n bwysig.



Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu

Dulliau defnyddiol fydd o gymorth

Dulliau defnyddiol fydd o gymorth

Adran 1	
Polisi chwarae ysgol	20
Adran 2	
Cynnal dadansoddiad opsiynau	21
Adran 3	
Ymgysylltu â'r plant	23
Adran 4	
Archwiliadau chwarae	24
Adran 5	
Cyfathrebu gyda rhieni a'r gymuned	26
Adran 6	
Gweithio gyda chymuned yr ysgol	27
Adran 7	
Rheoli risg	30
Adran 8	
Templed asesiad rig-budd	32
Adran 9	
Cynnal a chadw	33



Dulliau defnyddiol fydd o gymorth

Mae'r rhan yma o'r pecyn cymorth wedi ei baratoi i gynorthwyo cymuned yr ysgol i ystyried ffyrdd y gall ddarparu amser, lle a chaniatâd i hyrwyddo chwarae a ddewisir o wirfodd ar gyfer plant ar eu tiroedd ysgol eu hunain y tu allan i oriau addysgu. Efallai y bydd yr agwedd yma'n teimlo'n wahanol iawn i'r gwaith arferol a wneir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y cwestiwn canlynol yn cynnig man cychwyn defnyddiol.

Pan oeddwn i'n ifanc, ble oedd fy hoff fannau i chwarae a threulio amser gyda fy ffrindiau?

Mae profiad yn tueddu i ddangos nad oedd y manau hyn yn rhai costus, dan arweiniad oedolion, ond yn hytrach eu bod yn fannau awyr agored ble y byddem ni, fel plant, yn creu ein hwyf ein hunain ac yn cael ein anturiau ein hunain. Gall ysgolion chwarae rhan wrth ail-greu'r amgylcheddau hyn ar diroedd yr ysgol.



Adran 1 Polisi chwarae ysgol

Bydd mabwysiadu polisi chwarae ysgol yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ar gyfer plant. Mae polisi chwarae ysgol yn datgan y gwerth y bydd ysgol yn ei osod ar chwarae plant a'i bod yn ymrwymo i gefnogi cyfleoedd chwarae plant. Dylid rhannu'r polisi â'r plant, y staff a'r rhieni a dylid ei gynnwys ym mhrosbectws yr ysgol.

Templed o bolisi chwarae ysgol

Mae'r ysgol hon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol yn cael digon o amser a manau da i chwarae'n rhydd fel rhan o'u diwrnod.

I blant, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywyd. Mae chwarae'n cyfrannu at iechyd, lles a hapusrwydd plant yn ogystal ag at eu dysg a'u gallu i ddysgu. Yn bwysicaf oll, mae chwarae'n cyfrannu at allu plant i ffynnu a goroesi. Fydd rhai plant ond yn cael cyfle i chwarae gyda'u ffrindiau yn yr ysgol.

Gellir gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn i fywydau plant trwy werthfawrogi eu hysfa a'u hawydd i chwarae a thrwy ddarparu ystod eang o gyfleoedd chwarae ar dir yr ysgol cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol.

Mae'r ysgol hon yn sylweddoli y bydd plant yn mynd ati'n naturiol i greu neu chwilio am sefyllfaoedd heriol; tra'n gwneud y mwyaf o'u chwarae mae'n bosibl y bydd rhai plant yn cael damweiniau, yn gwlychu neu'n baeddu neu'n cael ysgytwad. Rydym yn sylweddoli y bydd angen i unrhyw risg o niwed posibl i blant gael ei gydbwysu â'r potensial am les allai ddod yn sgîl cymryd rhan mewn math penodol o chwarae. Byddwn yn gwneud ein gorau i atal plant rhag dioddef niwed corfforol neu emosiynol difrifol trwy reoli'r cyfleoedd chwarae y byddwn yn eu darparu'n ofalus.

Mae'r ysgol hon yn credu y bydd agwedd oedolion tuag at ymddygiad chwarae plant, a'u dealltwriaeth ohono, yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y cyfleoedd chwarae gaiff eu cynnig y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Felly, bydd yr ysgol hon yn chwilio am gyfleoedd hyfforddi ac yn cefnogi'r staff i ymchwilio, fel eu bod yn ddigon hyderus i hwylyso chwarae y bydd y plant yn ei ddewis o wirfodd ac yn ei gyfarwyddo'n bersonol.

Adran 2 Cynnal dadansoddiad opsiynau

Gall defnyddio templed dadansoddiad opsiynau helpu ysgolion i bennu'r penderfyniad, y model a'r agwedd orau i'w mabwysiadu yng nghyd-destun agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu.

Gellir rhestru manteision ac anfanteision pob opsiwn – gan sgorio 1 pwynt ar gyfer pob mantais a -1 ar gyfer pob anfantais (nodwyd rhywfaint o esiamplau eisoes).

Opsiwn 1: Cynnig mynediad digyfngiad i diroedd yr ysgol

Materion i'w hystyried:	Manteision (+1)	Anfanteision (-1)	Sgôr
Pa gyfleusterau / mannau eraill ar gyfer chwarae rhydd sydd ar gael yn y gymuned?			
A yw hi'n ddiogel i'r plant deithio'n annibynnol i safle'r ysgol?			
Pa adnoddau sydd eu hangen?			
Pa fannau eraill sydd ar gael ar gyfer chwarae?			
Beth yw barn y gymuned?			
Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?			

Opsiwn 2: Cynnig mynediad cyfyngedig i diroedd yr ysgol

Materion i'w hystyried:	Manteision (+1)	Anfanteision (-1)	Sgôr
Beth yw'r rhaglen gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd?			
Pa adnoddau fydd eu hangen?			
Pa fannau eraill sydd ar gael ar gyfer chwarae?			
Beth yw barn y gymuned?			
Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?			





Opsiwn 3: Cynnig mynediad cyfyngedig i diroedd yr ysgol trwy gytundeb stiwardiaeth

Materion i'w hystyried:	Manteision (+1)	Anfanteision (-1)	Sgôr
Pa grwpiau cymunedol sy'n bodoli allai gynorthwyo gyda'r fenter hon?			
Pa sgiliau sydd ar gael yn lleol?			
Pa adnoddau fydd eu hangen?			
Pa fannau eraill sydd ar gael ar gyfer chwarae?			
Beth yw barn y gymuned?			
Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?			

Opsiwn 4: Gwneud dim

Materion i'w hystyried:	Manteision (+1)	Anfanteision (-1)	Sgôr
Pa adnoddau fydd eu hangen?			
Pa fannau eraill sydd ar gael ar gyfer chwarae?			
Beth yw barn y gymuned?			
Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?			

Adran 3 Ymgysylltu â'r plant

Yn yr un modd ag y penodwyd hyrwyddwyr chwarae neu arbenigwyr cwricwlwm gan ysgolion, gallai 'hyrwyddwyr chwarae' fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn ystyried anghenion chwarae ei disgyblion.


Y bobl gyntaf i siarad â nhw yw'r plant. Efallai y gallai'r Cyngor Ysgol fod yn fecanwaith ar gyfer hyn ond mae'n bwysig cynnwys yr ysgol gyfan. Gall y plant helpu i:

- Gynnal archwiliad o sut, ac yn bwysicaf oll, pa rannau o diroedd yr ysgol sy'n cael eu defnyddio eisoes; cyn amser ysgol, yn ystod amser chwarae, amser egwyl, amser cinio ac ar ôl ysgol. Y plant sydd yn y sefyllfa orau i adnabod y potensial ar gyfer chwarae.
- Dynodi ble arall y bydd plant a phobl ifainc yn treulio eu hamser yn y gymuned leol oddi ar safle'r ysgol, a'r hyn y byddant yn ei wneud yno – bydd hyn yn helpu i gynllunio blaenoriaethau.
- Dynodi'r llwybrau y bydd plant a phobl ifainc yn eu defnyddio i ddod i ac i fynd o'r ysgol a'r cludiant y byddant yn ei ddefnyddio.
- Dynodi'r rhwystrau allai atal mwy o ddefnydd o diroedd yr ysgol y tu allan i oriau addysgu, fel ffyrdd a nentydd yn ogystal â ffiniau cymunedol canfyddedig, neu ffiniau diwylliannol ac ethnig.



Gellir defnyddio'r *Templed Cwestiynau a nodiadau i hwyluswyr* i ymgysylltu â'r plant. Mae ar gael i'w lawrlwytho o:
www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion

Mae'r pecyn *Gweithdy Hawl i Chwarae* ar gael i'w lawrlwytho o:
www.chwaraecymru.org.uk/cym/gweithdyhawlichwarae



Adran 4 Archwiliadau Chwarae

Er mwyn deall yr hyn y gellid ei gynnig, mae'n bwysig ystyried y gymuned leol a'r amgylchedd y mae'r plant yn byw ynddo. O gael amser, lle a chaniatâd i chwarae, bydd plant yn naturiol yn dewis chwarae ble bynnag a phryd bynnag y maent yn dymuno. Unwaith ein bod yn gwybod beth sydd ar gael i'r plant, gellir ei asesu'n erbyn y modd y mae angen i blant chwarae. Bydd archwiliadau chwarae'n darparu proses effeithiol ar gyfer mesur bod anghenion chwarae plant yn cael eu hateb mewn cymuned.

Oedolion fel archwilwyr

Bydd gan ysgolion amrywiaeth dda o wybodaeth eisoes am ddaearyddiaeth a demograffeg a diwylliant y gymuned. Bydd casglu gwybodaeth am ddarpariaeth arall, fel y Sgowtiaid, yn helpu i hysbysu penderfyniadau ynghylch yr hyn gaiff ei gynnig.

Bydd monitro'r modd y defnyddir tiroedd yr ysgol yn ystod oriau addysgu'n helpu i ddynodi eu potensial ar gyfer chwarae. Er enghraifft, mae cwestiynau y gellid eu hystyried yn cynnwys:

- Beth sy'n digwydd cyn i'r ysgol ddechrau ac yn ystod amser chwarae / egwyl?
- Beth fydd y plant yn tynnu tuag ato'n naturiol?
- Pa ran o dir yr ysgol fydd y plant yn mynd iddo'n gyntaf a pha ardaloedd fyddant yn eu hosgoi?

Gellir arsylwi a chofnodi defnydd, neu ddiffyg defnydd, ardaloedd ac adnoddau penodol. Efallai y byddai ardal o'r safle sydd ddim yn cael llawer o ddefnydd yn elwa o gael ei chyfoethogi ar gyfer y synhwyrau, sblash o liw neu rannau rhydd, er mwyn dangos yn weithredol i'r plant bod hwn yn fan ble y gallant chwarae.

Mae patrwm safle, ble y mae pethau wedi eu lleoli, a'r modd y bu i'r plant addasu llecynnau a symud pethau o gwmpas, i gyd yn glwiau i angen plant i chwarae a'u dewisiadau unigol.

Gall arsylwadau rheolaidd o'r plant dyfu'n drefn arferol fydd yn galluogi creu cofnod o ymddygiad chwarae naturiol plant. Gall defnyddio papur a phensel, ffôn, tâp llais a chamra i gyd fod yn ddulliau defnyddiol ar gyfer cofnodi'r eiliad a 'does dim rhaid i'r broses yma fod yn un ymwithgar. Ddylai'r angen i gasglu gwybodaeth fyth ymyrryd yn sylweddol â hawl plant i chwarae. Yn ogystal â chynllunio pryd a ble y cynhelir arsylwadau, os yw'r offer neu ddulliau arsylwi wrth law, bydd modd dal a chofnodi digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd.

Waeth pa ddull a ddefnyddir ar gyfer arsylwi, dylid cofnodi'r wybodaeth ganlynol:

- Beth sy'n cael ei arsylwi a pham. Er enghraifft, gwyllo'r modd y bydd plant yn defnyddio darn arbennig o boblogaidd o offer i ddysgu pam
- Y dyddiad
- Yr amser
- Y lleoliad
- Cofnod o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd (nid yr hyn yr ydym yn ei ddychmygu sy'n digwydd)
- Cofnod o'r hyn sy'n cael ei ddweud a gan bwy.

Wedi'r digwyddiad, mae'n ddefnyddiol i fyfrio ar yr hyn a arsylwyd, dechrau dehongli yr hyn a welwyd, a'r hyn y mae'n ei olygu o ran yr archwiliad.



Dulliau defnyddiol fydd o gymorth



Plant fel archwilwyr

Bydd plentyn sy'n chwarae'n dehongli man mewn modd cwbl naturiol a greddfodol gan wneud newidiadau iddo, neu'n syml iawn yn symud ymlaen gan nad yw'r safle'n cynnig, neu ei fod wedi gorffen cynnig, yr hyn y mae ei angen. I'r bobl hynny sy'n gyfrifol am archwiliadau manau chwarae, y plant fydd y ffynhonnell wybodaeth mwyaf dibynadwy. Wrth archwilio man chwarae, mae'n bwysig cofio mai gweithgaredd oedolion yw hon nid gweithgaredd plant. Mae'n bwysig peidio â thresmasu ar amser y plant, ond os ydyn nhw i deimlo bod y sefyllfa chwarae'n perthyn iddyn nhw, mae eu cyfranogaeth yn fuddiol wrth gefnogi ymdeimlad o berchenogaeth.

Bydd rhai plant, yn syml, yn mwynhau cael chwarae rhan. Bydd eu chwylfrydedd naturiol yn peri iddynt ofyn beth sy'n cael ei wneud pan welant oedolion yn cyfrif adnoddau ac efallai y byddant am helpu. Mae nifer o wahanol ffyrdd y gall plant, heb unrhyw orfodaeth a gyda dim ond ychydig o arweiniad, gynorthwyo gydag archwilio'r man chwarae.

Bydd edrych ar fapiau gyda'r plant yn ffordd dda o ddysgu am ddaearyddiaeth ardal a dechrau deall sut y bydd plant yn chwarae'n yr ardal.

Mae dulliau eraill fydd yn cynnwys plant yn cynnwys:

- Tynnu llun o'r hyn y maent yn hoffi ei wneud
- Cyfweld plant eraill am eu diddordebau
- Cynhyrchu a chwblhau holiaduron gyda'u cyfoedion
- Tynnu lluniau â chamra o'r hyn sy'n digwydd yn y man chwarae.

Bydd mynd allan i'r gymuned, arsylwi plant yn chwarae mewn modd sensitif a sgwrsio â nhw'n helpu hefyd wrth gasglu gwybodaeth gan blant.

Wrth gynnwys y plant mewn unrhyw fath o archwiliad, mae'n bwysig cofio nad ydynt yn teimlo eich bod yn addo rhywbeth iddynt na ellir ei drosglwyddo mewn gwirionedd. Bydd gofyn ystod o gwestiynau i blant ac annog eu cyfranogiad yn helpu'r plant i weld y posibilïadau. Mae hwn yn gyfnod mapio fydd yn cynnwys dehongli'r safle a'r hyn sy'n digwydd ynddo er mwyn cefnogi'r broses llunio penderfyniadau.

Os, ar unrhyw adeg o'r broses, y caiff negeseuon cymysg eu cyfleu ynghylch adnoddau neu ddatblygu'r safle ar gyfer y dyfodol, bydd y plant yn teimlo nad ydynt yn rhan o'r broses a chaiff eu ymdeimlad o berchenogaeth ei niweidio. Bydd plant â gwahanol lefelau o ddealltwriaeth yn dehongli pethau'n wahanol, felly bydd sicrhau bod unrhyw gyfranogiad yn briodol i'w lefel datblygiad yn helpu i leihau'r risg o gamddealltwriaeth.

Mae Templed archwiliad man chwarae ar gael i'w lawrlwytho o: www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion



Adran 5 Cyfathrebu gyda rhieni a'r gymuned

Unwaith bod cymuned yr ysgol wedi penderfynu ar yr opsiwn gorau o ran defnyddio tiroedd yr ysgol y tu allan i oriau addysgu, mae'n bwysig dynodi'r dull gorau ar gyfer cyfathrebu natur y prosiect i rieni a gofalwyr.

Negeseuon allweddol i rieni a gofalwyr:

Am y prosiect

Disgrifiwch y prosiect. Os caiff ei staffio, cofiwch bwysleisio mai rôl y staff fydd cefnogi chwarae a ddewisir o wirfodd a goruchwyllo'r plant pan maent ar dir yr ysgol. Eglurwch y caiff y sesiynau chwarae eu harwain gan y plant a bod hyn yn golygu y gall y plant ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain.

Nodwch y dyddiadau a'r amseroedd y bydd tir yr ysgol ar agor, ynghyd â manylion cyswllt person enwedig os bydd gan unrhyw un gwestiynau neu ymholiadau.

Pwy all fynychu

Pwysleiswch fod y sesiynau chwarae'n rhai rhad ac am ddim.

Byddwch yn gwbl glir ynghylch oeddrannau neu grwpiau blwyddyn y plant all fynychu heb oedolyn. Os caniateir i blant iau fynychu cyn belled â bod oedolyn yn eu hebrwng trwy'r amser, cofiwch nodi hyn hefyd.

Os yw'r sesiynau chwarae'n agored i blant sy'n byw'n lleol ond sy'n mynychu ysgolion eraill, cofiwch sicrhau fod pawb yn deall bod croeso iddynt hwythau ddefnyddio tir yr ysgol i chwarae.

Beth sydd angen i rieni a gofalwyr ei wybod

- Gall y plant fynd a dod o dir yr ysgol fel y mynnant
- Nid yw hwn yn wasanaeth gofal plant
- Eglurwch os caiff y plant eu goruchwyllo, neu beidio, tra eu bod ar dir yr ysgol
- Bydd y plant yn cael rhyddid i ddewis a chyfle i chwarae gyda'u ffrindiau
- Eglurwch os caiff y plant fynediad, neu beidio, i'r toiledau neu rannau eraill o'r ysgol (fel yr ystafell gotiau)
- Os oes goruchwyliaeth, efallai yr hoffech roi ffurflen gofrestru i'r plant fynd â hi adref. Dylid gofyn i'r rhieni ei chwblhau a'i rhoi i'r plant ei dychwelyd i'r ysgol. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn helpu i gyflawni anghenion y plant sy'n ymuno yn y sesiynau.
- Mae'n bwysig i'r rhieni a'r plant gytuno rhyngddynt ar faterion ymarferol, fel sut y bydd y plant yn mynd adref.



Pam eich bod yn cefnogi'r prosiect

Defnyddiwch yr adran yma i hyrwyddo pwysigrwydd y prosiect hwn ymysg rhieni a gofalwyr. Gallai datganiadau fel y canlynol helpu:

- Rydym yn credu bod chwarae'n bwysig i, ac ar gyfer plant
- Rydym am ddarparu gofod ar gyfer chwarae sydd wedi ei leoli yn y gymdogaeth ac sy'n agos i ble mae'r disgyblion yn byw
- Mae tir ein hysgol ar agor eisoes at ddefnydd y gymuned yn ystod eu hamser hamdden ac rydym am hybu hyn yn lleol, ac ymysg ein disgyblion.

Adran 6 Gweithio gyda chymuned yr ysgol

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA), cymdeithas tenantiaid a thrigolion lleol a grwpiau lleol eraill yn fannau cyswllt da er mwyn dynodi gwirfoddolwyr posibl i helpu gyda agor a chau gatiau, os y dynodwyd y byddai hyn yn ddefnyddiol.

Mae'n werth cysylltu â'r Cyngor Tref neu'r Cyngor Cymuned a mudiadau eraill yn yr ardal, yn cynnwys adrannau eraill yr awdurdod lleol, i weld pa ddarpariaeth chwarae arall allai fod ar gael yn lleol a pha gymorth y gallant, efallai, ei gynnig.

Mae gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol Swyddog Chwarae a cheir cymdeithasau chwarae rhanbarthol ar draws Cymru. Mae'n bosibl y gallant helpu gyda chynghor am yr ystod o ddarpariaeth chwarae y gellir ei ddatblygu a'i hyrwyddo gan ddefnyddio safleoedd sy'n bodoli eisoes. Efallai y gallant gynnig sesiynau tymor byr wedi eu staffio i hyrwyddo agor tiroedd ysgol. Mae'n bosibl y gall darpariaeth chwarae wedi ei staffio, yn benodol, ddarparu cyngor am bryderon ynghylch ofn difrod a fandaliaeth. Efallai y gallent hefyd helpu i drefnu digwyddiad chwarae ar diroedd yr ysgol er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo chwarae ac i ateb cwestiynau allai godi.

Mae cynnal cyfarfod cymunedol yn ffordd dda o helpu rhieni ac eraill i ddeall beth yw'r cynlluniau ar gyfer defnyddio'r safle y tu allan i oriau addysgu. Yma, gellir rhannu syniadau a gellir trafod y

gofod fydd ar gael i'r plant ar gyfer eu chwarae rhydd eu hunain. Gellir pwysleisio na fydd goruchwyliaeth ar y safle ac na fydd yr adeiladau ar agor.

Bydd creu cysylltiadau â Swyddog Cyswllt yr Heddlu neu â Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n sicrhau bod pawb yn deall yn iawn beth yw diben y safle. Byddant yn awyddus i wybod am bob safle yn y gymuned y mae gan blant ganiatâd i chwarae ac ymgasglu arno a byddant hefyd yn awyddus i helpu i warchod y ddarpariaeth yma.

Efallai y byddai hwn yn gyfle da hefyd i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae i rieni a'r gymuned ehangach, a thawelu unrhyw ofnau allai fod ganddynt. Yn ogystal, bydd y cyfarfod hwn yn cynnig cyfle i'r ysgol drafod pwysigrwydd chwarae yn ystod y diwrnod ysgol gyda rhieni a'r gymuned ehangach.

Gall ysgolion ddefnyddio ac addasu'r *Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cymuned chwarae* er mwyn helpu i hyrwyddo chwarae'n lleol ac i gefnogi rhieni.

Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cymuned chwarae

Efallai y bydd yr awgrymiadau defnyddiol yma'n annog rhieni a gwarchodwyr a chymunedau lleol i gefnogi plant i chwarae allan yn hyderus, y tu hwnt i unrhyw ddiwyddiad wedi ei drefnu:

Paratoi plant i fod yn ddiogel ar y stryd

Mae strydoedd yn rhan sylweddol o ofod cyhoeddus mewn cymunedau. Gallwn baratoi plant o oedran ifanc trwy ddweud wrthynt a dangos iddynt sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar ac o amgylch y strydoedd.

Ystyried arferion gyrru pawb

Yn aml bydd rhieni'n pryderu am draffig cyn caniatáu i blant chwarae allan. Fel gyrrwyr, gall pob un ohonom yrru ar gyflymder diogel yn yr un modd y byddem yn dymuno i eraill yrru ar y strydoedd preswyl ble y bydd plant yn chwarae.

Helpu plant i ddod i adnabod eu cymdogaeth

Pe bae oedolion a phlant yn dibynnu llai ar deithio mewn car yn eu cymuned leol, byddai plant yn dod i adnabod eu strydoedd lleol. Gall cerdded i ac adref o gyfleusterau lleol, fel y siop, yr ysgol a'r parc, ein helpu i gyd i ddynodi ffyrdd, gyda'n plant, i'w cadw'n ddiogel.

Bod yn gymunedol-gyfeillgar

Gall pawb ddod i adnabod pobl leol, cymdogion a theuluoedd eraill, a chytuno â'i gilydd i gadw llygad ar y plant i gyd. Bydd hyn yn meithrin ymdeimlad o gymuned ddiogel, fydd yn caniatáu i fwy o blant chwarae allan yn amlach, ac i fod yn fwy diogel o'r herwydd.

Ymddiried mewn plant

Gellir cytuno â'r plant i ble ac am ba hyd y gallant fynd allan i chwarae. Os ydynt yn adnabod eu hardal leol, eu cyfeiriad a'u rhif ffôn, a phwy y gallant alw arnynt, a sut i ddweud yr amser, bydd yn helpu wrth wneud y trefniadau hyn.

Bod yn realistig

Bydd cadw pryderon pawb mewn persbectif a gwybod am gymdogion a thrigolion lleol y gellir galw arnynt am gefnogaeth a chymorth os oes unrhyw bryderon o fudd. Mae buddiannau chwarae'r tu allan yn llawer mwy na unrhyw risg.

Sicrhau newid

Gall pawb ymgyrchu'n lleol am newidiadau i'w cymdogaeth allai wneud ein hardaloedd lleol yn fannau ble y gall plant chwarae allan yn hyderus. Gellir hyrwyddo pwysigrwydd chwarae allan mewn cymunedau ar dafod leferydd neu trwy gynnal digwyddiadau cymunedol a gadael i eraill wybod amdanynt.



Cytundebau Cymunedol

Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer agor tiroedd ysgol, mae'n debyg y bydd nifer o unigolion a grwpiau'n dod ynghyd i gynllunio'r trefniadau. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnig ffordd o rannu dealltwriaeth o'r hyn a gynigir; i agor cyfleusterau awyr agored ar gyfer defnydd cymunedol. 'Does dim angen iddi fod yn ddogfen gymhleth.

Mae'n bwysig sicrhau ei bod yn gwbl eglur beth yw tasg pob plaid neu berson a phwy sy'n derbyn cyfrifoldeb cyffredinol am elfennau allweddol fel yswiriant, cynnal a chadw ac archwiliadau.

"Rydym wedi llwyddo i agor rhan o diroedd ein hysgol oherwydd inni weithio gyda Rhwydwaith Cymunedol oedd wedi ei sefydlu eisoes. Mae'r grŵp yma o bobl yn awyddus ac wedi hen arfer derbyn cyfrifoldeb. Mae ganddynt gysylltiadau cymunedol da, ond maent hefyd yn cefnogi staff, sydd wedi helpu i gynnal cysondeb."



Templed memorandwm cyd-ddealltwriaeth

Cyflwyniad

Nod y prosiect yw gweithio ar y cyd i sicrhau bod tiroedd Ysgol _____ yn addas a hygyrch ar gyfer plant a phobl ifainc yn y gymuned i'w defnyddio i chwarae y tu allan i oriau addysgu.

(Nodwch enw a chyfeiriad yr ysgol yma)

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yma yw diffinio'r dull gweithio, a rolau a chyfrifoldebau aelodau-sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i oruchwylio, cefnogi a sicrhau cynnal a chadw'r safle, gan gyfrannu at ei gynladwyedd yn y tymor hir.

Rôl y bartneriaeth yw cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw yn Ysgol _____ er mwyn sicrhau bod modd i'r safle barhau i gefnogi a bod yn effeithlon wrth gyflawni anghenion chwarae plant a phobl ifainc. Trwy gynnal asesiadau risg-budd, caiff unrhyw beryglon diangen eu lleihau trwy gefnogi'r camau angenrheidiol, yn cynnwys cwblhau gwiriadau, atgyweiriadau, ac addasiadau amgylcheddol.

Mae aelodau'r grŵp wedi gwneud ymrwymiad i gyfrannu at awyrgylch o ddiffuantrwydd, cyfranogaeth weithredol a dealltwriaeth o anghenion penodol pob mudiad a maes.

Pleidiau sy'n llunio'r cytundeb

Y tiffeddianwr / unrhyw bleidiau eraill sy'n gweithio i gefnogi'r man chwarae plant yma yw:

Dulliau gweithio

- 1) _____ fydd yn derbyn y cyfrifoldeb pennaf am reoli tir yr ysgol a bydd yn gweithio â phartneriaid i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn gywir a'i fod yn addas i gefnogi anghenion chwarae plant. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cyllideb i gefnogi unrhyw raglen cynnal a chadw.
- 2) Bydd _____ yn darparu gofalwr i sicrhau y cynhelir archwiliad dyddiol / wythnosol o diroedd yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys gwaredu unrhyw sbwriel diangen ac archwiliad gweledol o unrhyw offer chwarae ar y safle am olion traul. Caiff unrhyw bryderon eu cofnodi'n briodol, ynghyd ac unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Bydd hyn yn llunio rhan o unrhyw asesiad risg-budd a wneir.
- 3) Caiff asesiadau risg-budd eu cwblhau a'u cadw ar ffeil gan _____ a chaiff camau gweithredu penodol eu rhannu â staff priodol a phleidiau allanol sy'n cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
- 4) Cynhelir cyfarfodydd (gaiff eu cynnal bob _____) â phleidiau allanol priodol sy'n cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw, a byddant yn cynnwys rhannu unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
- 5) Bydd cyfarfodydd yn dynodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni unrhyw gamau gweithredu y dynodwyd y bydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
- 6) Bydd gofyn i bleidiau allanol priodol gyfrannu at unrhyw asesiadau risg-budd a wneir.
- 7) Bydd pleidiau allanol priodol yn cyfrannu at gynnal a chadw'r man chwarae trwy sicrhau y caiff camau gweithredu penodol a ddynodir eu cyflawni (e.e. torri gwair, torri cloddiau)
- 8) Bydd pleidiau allanol priodol yn cymryd camau i gefnogi cyfrannu at gyllideb a / neu adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.

Rolau a chyfrifoldebau

Mudiad – Pwy?	Rôl – Beth?	Cyfrifoldeb

Datganiad

Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cytuno i'r trefniadau yn y ddogfen hon.

Arwyddwyd

Dyddiad

Adran 7 Rheoli risg

Fel rhan o gyfrifoldebau'n ymwneud ag archwilio a chynnal a chadw'r man chwarae, bydd angen cynnal asesiadau risg-budd gweithredol yn rheolaidd. Mae'n debyg y bydd hyn yn amod o'ch polisi yswiriant.

Prif bwrpas asesu risg-budd yw dangos bod unrhyw risgiau posibl wedi eu dynodi a bod camau rheoli wedi eu rhoi yn eu lle i reoli'r risgiau hynny.

Asesu risg-budd

Mae asesu risg-budd yn agwedd tuag at reoli risg sydd hefyd yn ystyried y budd gaiff plentyn o gael mynediad i risg penodol. Mae hyn yn ystyriaeth rhesymol mewn darpariaeth chwarae plant.

Er enghraifft: mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â ffrâm ddringo'n ymwneud â llithro neu gwmpo oddi ar y ffrâm. Mae camau rheoli y gellid eu rhoi yn eu lle i leihau'r risg ddaw yn sgîl cwmpo.

Fodd bynnag, cyn pennu camau rheoli, dylid ystyried pam y dylid caniatáu i blant ddringo'n uchel. Dyma ble y byddwn yn ystyried y buddiannau. Mae buddiannau tebygol yn cynnwys: cynyddu cryfder corfforol, balans a chydsymudiad; plant yn dysgu i asesu risgiau drostynt eu hunain a phrofi ymdeimlad o gyffro.

Bydd cynnwys asesu risg-budd yn eich proses rheoli risg yn dangos eich bod wedi ystyried yr holl ffactorau hyn, gan gynyddu lefel chwaraeadwy'r man chwarae.

Templed polisi rheoli risg

Gellir addasu'r templed Polisi rheoli risg ar y dudalen nesaf i ateb anghenion yr ysgol. Mae'r polisi'n amlinellu'r agwedd risg-budd tuag at reoli risg ac mae'n caniatáu cynnwys gweithdrefnau'r ysgol, amlder archwiliadau a rhaglen gynnal a chadw arferol. Mae meddu ar bolisi rheoli risg yn mynd ymhellach na'r gofynion ar gyfer cynnal asesiadau risg, gan gynnig fframwaith cadarn i'r modd y bydd sefydliadau'n rheoli risgiau dros amser ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i ddiweddarau a gwella asesiadau risg ymarferol (ar bapur).



Polisi rheoli risg

Mae'r polisi hwn wedi ei ddatblygu er mwyn darparu agwedd gydlynol, gyson a chytbwys tuag at reoli risg yn Ysgol _____ ac er mwyn sicrhau gwell eglurder dealltwriaeth ynghylch y mater hwn.

Trwy hyn, mae'r polisi'n anelu i herio rhywfaint ar natur ofn risg ein cymdeithas heddiw, all gyfyngu ar brofiadau chwarae plant.

Caiff y polisi ei gefnogi gan y Datganiad Lefel Uchel a gyhoeddwyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Play Safety Forum.

Mae'r Datganiad Lefel Uchel – *Chwarae a Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys yn egluro:*

- Bod chwarae'n bwysig i les a datblygiad plant
- Wrth gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, nad dileu risg yw'r nod, ond yn hytrach y dylid pwysu a mesur y risgiau a'r buddiannau
- Y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli gwir risg, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid canolbwyntio ar y gwaith papur
- Y bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.

Systemau rheoli risg

Defnyddir y term Rheoli Risg yn y polisi hwn i gyfeirio at bob elfen sydd ynghlwm â'r broses o reoli risg allai, ac a ddylai, gynnwys llawer mwy nag asesiadau risg ar bapur yn unig. Ble fo'r holl elfennau hyn yn cael eu cefnogi'n briodol, bydd yn bosibl datblygu systemau rheoli risg mwy cadarn a mwy deallus.

Darparu ar gyfer risg a her mewn darpariaeth chwarae

Mae Ysgol _____ yn cydnabod bod plentyndod yn llawn profiadau newydd fydd, o reidrwydd, yn cynnwys rhyw elfen o risg neu fentro, boed yn gorfforol neu'n emosiynol.

Mae plentyndod yn broses barhaus o brofi a methu, gyda'r posibilrwydd o lwyddo, ond yn ogystal â damweiniau anochel. Fyddai plant fyth yn dysgu sut i gerdded, dringo'r grisiau neu fynd ar gefn beic oni bai eu bod ag ysgogiad cryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys risg o anafiadau. Mae gennym ddyletswydd gofal i geisio amddiffyn unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n cyfleusterau rhag effeithiau niweidiol, hir dymor posibl, wynebu niwed corfforol ac emosiynol difrifol ac afresymol. Fodd bynnag, wrth wneud hyn ddylen ni ddim ei anwybyddu, neu ei geisio ar draul, galluogi plant i gyfranogi'n weithredol yn eu datblygiad personol eu hunain o iechyd, lles a gwytnwch, o ganlyniad i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd â chanlyniadau ansicr.

Asesu risg-budd

Caiff penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n rhesymol, a'r dymuniad i blant gyfranogi a chyfrannu, eu llunio gan ddefnyddio agwedd risg-budd. Mae'r broses yma'n cynnwys ystyried y buddiannau posibl a gyflwynir gan gyfle ynghyd ag unrhyw ganlyniadau negyddol posibl, ac yna llunio barn os yw'r posibilrwydd o anaf yn gymesur â'r buddiannau. Hynny yw, a yw'r buddiannau posibl yn cyfiawnhau caniatáu i berygl anaf sefyll?

At ddibenion asesiadau risg-budd, gall buddiannau fod yn rhai corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu amgylcheddol (ac mae'n debyg y byddant yn gyfuniad o'r rhain i gyd). Gellir dynodi risg anaf trwy ystyried tebygolrwydd gweld anaf posibl yn digwydd ynghyd â difrifoldeb posibl yr anaf hwnnw.

Camau rheoli rhesymol

Yn ystod y broses risg-budd mae'n bosibl y bydd angen dynodi camau rheoli er mwyn lleihau'r risg o anafiadau i lefel dderbyniol. Fodd bynnag, bydd y camau rheoli, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu gweithredu, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid cyfiawnhau cost unrhyw gamau rheoli posibl trwy sicrhau eu bod yn gymesur â'r perygl anaf cysylltiedig.

Cyn cyflwyno unrhyw gamau rheoli, dylid ystyried hefyd unrhyw effeithiau negyddol posibl allai godi'n sgîl ymyrryd yn y modd yma. Er enghraifft, mae'n bwysig na chaiff angen plant i ddefnyddio eu hamgylchedd mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl eu cyfyngu mewn ymgais i ddarparu amddiffyniad llwyr rhag anafiadau.

Pwyntiau allweddol:

- Mae gwerth cynhenid i blant o brofi ansicrwydd a her personol trwy eu chwarae.
- Mae angen i blant deimlo'n rhydd i brofi risg a her o'u dewis eu hunain. Fydd dim ond modd iddyn nhw wneud hyn os y byddwn yn caniatáu rhyw elfen o ansicrwydd i aros.
- Mae'r ddarpariaeth chwarae y byddwn yn ei greu'n anelu i gefnogi plant i brofi lefelau rhesymol o risg drostynt eu hunain.
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau lefelau priodol o amddiffyn, a gwarchod lefelau rhesymol o ansicrwydd.
- Rydym yn anelu i reoli risg fel bod, pryd bynnag y bo'n rhesymol bosibl, y risg o anaf y bydd plant yn ei wynebu'n gymesur â'r buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
- Bydd camau rheoli'n rhesymol ac yn realistig, tra'n sicrhau y caiff risgiau diangen eu lleihau.
- Mae rheoli risg yn ymgorffori nifer o wahanol elfennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i lunio cylchdro parhaus, fydd yn gwella ein arfer.
- Mae plant yn gwbl abl i reoli rhywfaint o risg drostynt eu hunain a bydd eu gallu'n datblygu wrth i'w profiad gynyddu.^{ix}

Adran 8 Templod asesiad risg-budd

Mae'r templed o asesiad risg-budd hwn wedi ei ddylunio i gynnwys asesu risg-budd sy'n seiliedig ar werth, fel a ddisgrifir yn *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'n seiliedig ar *Ffurflen Asesu Risg-Budd* y Play Safety Forum.

Ysgol:		Dyddiad:			
Cwblhawyd gan:		Dyddiad adolygu:			
Ardal / Disgrifiad: Adeiladu cuddfan					
Buddiannau	Risgiau	Nodweddion lleol perthnasol	Beth ydych yn ei wneud eisoes	Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen	Gweithredu erbyn pryd
Chwarae corfforol a chyfleoedd datrys problemau. Archwilio'r amgylchedd. Adeiladu tîm. Datblygu hunan-hyder a lles. Cysymudiad corfforol. Cyflawni'r canlyniad terfynol. Cynhwysiant cymdeithasol. Ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a'r elfennau naturiol. Potensial ar gyfer ei ymgorffori mewn gemau dychmygus. Cymysgu rhwng gwahanol oedrannau.	Cytiau, crafiadau, cleisiau, o ganlyniad i adeiladu a thrin deunyddiau. Cytiau, cleisiau, esgyrn wedi torri o ganlyniad i wrthrychau'n cwmpo / chwalu.	Dim ond cyllideb fechan sydd ar gael i gynyddu'r chwarae gaiff ei gynnig ar y safle hwn. Cynyddu ar y profiad o chwarae dychmygus yn ystod amser ysgol. Tai lleol a ffordd gerllaw er mwyn galw am help.	Darparu deunyddiau ysgafn		

Adran 9 Cynnal a chadw

Bydd angen rhaglen cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer y man chwarae. Bydd y modd y caiff hyn ei drefnu'n dibynnu ar y sefyllfa leol a'r lefel o ddefnydd.

Bydd gwiriadau dyddiol neu wythnosol rheolaidd sy'n rhwydd a chyflym i'w cyflawni'n digwydd eisoes. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys gwirio am arwyddion camddefnydd bwriadol, fandaliaeth a chasglu sbwriel neu eitemau peryglus.

Ystyriaethau cynnal a chadw

Isod ceir rhestr o rai ffactorau cynnal a chadw y dylid eu hystyried:

- A oes modd dynodi mudiad lleol all fod yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw?
- Pa waith cynnal a chadw cyffredinol fydd ei angen? Gall y gymuned leol ymgymryd â thasgau fel casglu sbwriel, torri gwair a gwaith atgyweirio cyffredinol.
- Pa waith cynnal a chadw arbenigol fydd ei angen? Bydd yn well gadael y gwaith o atgyweirio rhannau wedi treulio ar offer chwarae i arbenigwyr.
- Beth fydd costau'r cynlluniau cynnal a chadw? Unwaith i'r gyllideb gael ei phennu bydd angen ei chynnwys mewn gweithgareddau codi arian.

Arwyddion

Gall arwyddion chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr at ddibenion adrodd am ddamweiniau a difrod.

Gall arwyddion gynnwys:

- Manylion cyswllt er mwyn adrodd am ddifrod neu ddamweiniau. Gall yr arwydd nodi rhif ffôn neu gyfeiriad yr ysgol.
- Arwyddion pictogram 'Dim Cŵn' a 'Dim Ysmygu'.
- Ble fo gwifrau trydan uwchben y safle, argymhellir gosod arwyddion 'Dim Hedfan Barcutiaid'.

Hefyd, dylai arwyddion fod yn groesawus ac yn gyfeillgar i blant. Os oes modd, ceisiwch weithio gyda'r disgyblion i ddylunio arwyddion sy'n adlewyrchu'r gymuned a'r plant sy'n byw yno.



Templed gwiriadau man chwarae cyffredin

Enw'r Ysgol:

Amllder Gwiriadau (dyddiol / wythnosol):

Dyddiad	Problemau / beth gafodd ei wneud	Sgôr (Gweler yr Allwedd)	Enw / Llofnod	Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol
	Wedi casglu sbwriel, wedi gwaredu gwydr wedi torri, wedi gwirio sedd siglen wedi ei difrodi	4		Argymhell cynnal gwiriadau dyddiol dros yr haf. Ychwanegu'r sedd siglen wedi ei difrodi i'r rhestr wirio archwiliadau cyffredin

Allwedd (sgorio): Dylid pennu rhif rhwng 1-5 i gynrychioli'r lefel difrod / gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar bob ymweliad.

- 1 = Dim neu fawr ddim sbwriel, dim difrod
- 2 = Rhywfaint o sbwriel, arwyddion traul a defnydd rheolaidd
- 3 = Sbwriel cymedrol, gwaredu rhywfaint o wrthrychau peryglus
- 4 = Sbwriel a / neu ddifrod sylweddol
- 5 = Arwyddion o ddefnydd sylweddol iawn, llawer o sbwriel / gwrthrychau peryglus i'w gwaredu, angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd sylweddol

Fel canllaw, os y bydd tiroedd yr ysgol, fel arfer, yn sgorio 1 neu 2 efallai y bydd gwiriadau wythnosol yn ddigonol, os yw'n sgorio 4 neu 5, efallai y bydd angen gwiriadau dyddiol. Gallwn ddefnyddio'r daflen yma i fonitro lefel y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn ogystal â newidiadau tymhorol.

Diolchiadau:

Rydym yn ddiolchgar i'r isod am eu cymorth a'u cyfraniad:

Maria Austin

Athrawes y Cyfnod Sylfaen a Swyddog Chwarae, Sir Gaerfyrddin

Ieuan Bleddyn Gardiner

myfyriwr-wirfoddolwr

Paul Davies

Pennaeth, Ysgol Llanddulas, Conwy

Bethan Jones

myfyriwr-wirfoddolwr

Michelle Jones

Cydylnydd Prosiect, Rhwydwaith Rhieni Caerffili

Darren Jones

Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymunedol Cradoc, Powys

Martin King-Sheard

Swyddog Chwarae, Conwy

Sara Meredith

myfyriwr-wirfoddolwr

Sarah Southern

Swyddog Rhianta a'r Blynyddoedd Cynnar, Learning through Landscapes Cymru

John Webb

Pennaeth, Ysgol Iau Gaer, Casnewydd



Cyfeiriadau

ⁱ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012)

Chwarae A Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Play Safety Forum

ⁱⁱ Llywodraeth Cymru (2012) *Creu cyfle i chwarae - Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

ⁱⁱⁱ Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change: Play, policy and practice – a review of contemporary perspectives.* Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant

^{iv} Draig Ffyni (2007) *Pam fod oed pobl yn mynd fyny ddim lawr?* Abertawe: Draig Ffyni

^v Llywodraeth Cynulliad Cymru / Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2002) *Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion*

^{vi} Shackell, A., Butler, N., Doyle, P. a Ball, D. (2008) *Design for Play: A guide to creating successful play spaces.* Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant

^{vii} *Chwarae A Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys*

^{viii} Biwro Cenedlaethol y Plant (2012) *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu.* Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant

^{ix} Grŵp Rheoli Risg Conwy a Wrecsam (2009) *Fframwaith Rheoli Risg Conwy a Wrecsam: Polisi, Trefn Arferol ac Asesu Risg-Budd Dynamig*

^x *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*

Lluniau

Mae pob llun yn eiddo Chwarae Cymru, ac eithrio:

Tudalen 20, 21, 26: New Model Army Photography

Tudalen 25: Scrapstore PlayPod®

Tudalen 30: Sioned Williams

Tudalen 38 (ar y brig): Chwarae Torfaen

Adnoddau

Llywodraeth Cymru (2002) *Polisi Chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Chwarae Cymru (2012) *Cyfranogiad plant mewn cynllunio ac asesu.* Caerdydd: Chwarae Cymru

Biwro Cenedlaethol y Plant (2012) *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu.* Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant

Shackell, A., Butler, N., Doyle, P. a Ball, D. (2008) *Design for play: A guide to creating successful play spaces.* Llundain: Play England

Llywodraeth Cymru (2012) *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Gwasanaethau Chwarae:
www.chwaraecymru.org.uk/cym/gwasanaethauchwarae

Play Safety Forum (2014) *Ffurflen Asesu Risg-Budd.*

Llywodraeth Cymru (2015) *Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru